# Agenda - Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Chwefror 2020

Amser: 10.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwygio@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(10.15-10.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.30)

## 2 Ethol Cynulliad mwy amrywiol - sesiwn dystiolaeth ar rannu swyddi

(10.30-12.00) (Tudalennau 1 - 40)

Yr Athro Sarah Childs, Birkbeck, Prifysgol Llundain

Y Cynghorydd Mary Sherwood, Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Dr bob Watt

**Dogfennau atodol:**

CAER(5)-4-20 Papur 1 - Briff ymchwil [Saesneg yn unig]

CAER(5)-4-20 Papur 2 - Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Cynghorydd Mary Sherwood (cyflwynwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol fel rhan o'i ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol) [Saesneg yn unig]

## 3 Papurau i'w nodi

(12.00)

### 3.1 Tystiolaeth ysgrifenedig gan Cyswllt Amgylchedd Cymru ar gapasiti'r Cynulliad – Ionawr 2020

(Tudalennau 41 - 43)

**Dogfennau atodol:**

CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 1 [Saesneg yn unig]

### 3.2 Llythyrau gan Gadeiryddion pwyllgorau ar gapasiti'r Cynulliad:

| Papur i'w nodi | Pwyllgor | Tudalennau |
|---|---|---|
| Papur i'w nodi 2 | Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu | 44 |
| Papur i'w nodi 3 | Y Pwyllgor Deisebau | 45-46 |
| Papur i'w nodi 4 | Y Pwyllgor Cyllid | 47-48 |
| Papur i'w nodi 5 | Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau | 49-54 |
| Papur i'w nodi 6 | Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol | 55-58 |
| Papur i'w nodi 7 | Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad | 69-60 |
| Papur i'w nodi 8 | Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig | 61 |
| Papur i'w nodi 9 | Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | 62-63 |
| Papur i'w nodi 10 | Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon | 64-65 |
| Papur i'w nodi 11 | Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | 66-68 |
| Papur i'w nodi 12 | Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau | 69 |

### 3.3 Llythyr gan y Llywydd gyda gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 2 Rhagfyr 2019 – 27 Ionawr 2020

(Tudalennau 70 - 98)

**Dogfennau atodol:**

CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 13

**4 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, a'r cyfarfodydd ar 24 Chwefror a 2 Mawrth**

(12.00)

**5 Ethol Cynulliad mwy amrywiol – ystyried y dystiolaeth lafar ar rannu swyddi**

(12.00-12.15)

**6 Systemau a ffiniau etholiadol – y dull o weithredu'r ymchwiliad**

(12.15-12.25) (Tudalennau 99 - 105)

**Dogfennau atodol:**

CAER(5)-4-20 Papur 3 – Amserlen arfaethedig o dystion [Saesneg yn unig]

CAER(5)-4-20 Papur 4 – Ymweliad y pwyllgor [Saesneg yn unig]

**7 Blaenraglen waith**

(12.25-12.35) (Tudalennau 106 - 112)

**Dogfennau atodol:**

CAER(5)-4-20 Papur 5 – Blaenraglen waith [Saesneg yn unig]

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Job-Sharing Cabinet Positions in Swansea: Report to the Equalities, Local Government & Communities Committee "Diversity in Local Government" Inquiry**

The Equalities, Local Government and Communities Committee has published its report following their inquiry into Diversity in Local Government, which includes recommendations to follow Swansea's example in bringing in job-sharing cabinet positions. This recommendation was made with very little input about how Swansea has done this, and what has been learned in the process.

This paper has two aims. Firstly we aim to support the committee's recommendation by providing some insights from our early experience of job-sharing in Swansea. Secondly and perhaps more importantly, the paper explains some of the barriers to diversity which job sharing has shone a light on, and for which job-sharing, alone, cannot be a fix.

Although it carries a salary, the "job" of political office is not like other employment. Certain expectations made of politicians – by themselves, each other, the officers they work with and the public – make job-sharing a more complex undertaking, accompanied by more challenges, than a usual job-share. We hope that sharing our experience will be helpful on a practical level, and that the points raised here about cultural barriers to diversity, which job-sharing won't necessarily put an end to, will be acknowledged as discussions continue about increasing diversity in democracy.

**Legal Status and Culture Change**

The Labour administration in Swansea has been determined to pioneer new modern ways of working for political roles, to encourage younger members especially young mothers to take on senior positions. Policies to become more family friendly have been under discussion and being introduced, influencing meeting times and durations, the active promotion of reimbursement of care costs, etc. This has included some cabinet portfolios being filled on job share basis (1 in 2017; 2 in 2018). Unfortunately the legislation and national local government processes have not helped; Swansea has persisted to successfully implement job-sharing despite rigid and out of date legislation and policy.

Currently, the legal reality is that a Cabinet Member salary, vote and title cannot be shared. Swansea sharers have alternated every three months, but continued to work *as a cabinet member* for the whole period: while the vote and the pay may alternate, job-sharers are still expected to fulfil their full cabinet role at all times. It has proved important to ensure all officers and members understand this.

Officers, particularly those who safeguard our legal compliance, have sometimes been very committed to clarity over who is or is not "the cabinet member" at any time. This can be confusing and undermining, not just for sharers but for colleagues (either members or officers) who are willing to be more flexible in order to embrace the new arrangements.

We welcome assurances that legislation and national policy will soon catch up and facilitate sharing without concern about it not being legally correct. Meanwhile, anyone pushing boundaries (real or perceived) to change cultures should be prepared for this tension.

**Individual Responsibility in the concept of "Leadership"**

A single portfolio-holder, overseeing their workload and remaining solely accountable for it, has many merits – essentially, this format gives clarity of accountability. The concept of individual responsibility is a fairly ingrained cultural expectation of political life. With all due respect for party cohesion, the fraternity of multi-member wards, principles of collective responsibility and

the ultimate shared success or failure of a political administration, individual politicians are ultimately judged according to their own actions, by their colleagues, the media and crucially the electorate. This creates a philosophical dilemma as well as a practical challenge for job-sharing. Collaboration and integration also have many merits. The WBFG Act expects politicians to model these ways of working and we recognise the dangers of any silo mentality. But in the custom and practice of political life, even if collaborating with each other as competent individuals is expected, and works very well, going beyond that to working in a truly integrated way jars against concepts of individual leadership, and this is particularly notable with job-sharing. A nervous dance can emerge, with sharers anxious not to undermine each other and colleagues anxious about maintaining equal communication and collaboration with both partners.

It is worth considering how closely (or not) the qualities associated with "leaders" resemble those we'd look for in a working partner. Concepts of "leadership" shape working cultures and set our expectations of the people we support into leadership roles, who then perpetuate those cultures. The current, rather individualistic, culture of political work is one in which job-sharing can be an awkward fit. To put this another way: people who have enjoyed job-sharing in settings where individual leadership isn't so paramount and where collaboration and integration occur more naturally may well find their natural working style an awkward fit with politics.

In discussions of diversity, may be recognized that diversity of *working styles* is as necessary as of race, age, sex, economic status etc, and we may know that working styles embedded long ago by white, wealthy men do not suit everyone, but they don't seem to be being fundamentally challenged while discussions about diversity focus on practicalities. Getting more women into leadership won't necessarily change these cultures, and nor will more job-sharing.

**Workload**
The workload of any cabinet member is unpredictable. For conscientious post-holders, seeking to drive improvement and change, there will always be more than can feasibly fit into a "normal" working week. For job-sharers, the boundary of what is achievable must be drawn in more tightly to fit their restricted availability. This is not as straightforward as a standard full-time job commitment where each sharer works their 18.5 hours.

Year 1 of Swansea cabinet job-sharing saw two names heading a list of shared responsibilities. The context of rapid change (see below) meant that both the highly experienced councillor and the new officer-turned-councillor were not familiar with the latest relevant operational structure: officers, plans, partnerships, meeting cycles etc. "Two-for-the-price-of-one" syndrome struck, with both doing everything. Other commitments, such as caring duties and other paid work had to give way in a manner that other sharers, with more fixed outside commitments, simply could not indulge. Inefficiency and duplication of effort, combined with cultural struggles (mainly with officers) over **individual responsibility** necessitated a change. Year 2 saw separate portfolios drawn up, with complete clarity over who would lead on what, but with the expectation that, in the spirit (and legal sense) of job-sharing, both would maintain an overview of the whole portfolio.

A job-sharer may commit to a role that seems feasible on a part-time basis, but with split responsibilities, keeping an eye on a partner's areas requires additional time. All job-sharers may struggle with "hand-over time", and political roles are no exception. If we could deploy part-time cabinet roles, with councils allowed to have up to 10 FTE cabinet members, this would eliminate "hand-over time" but other dilemmas related to workload would still be encountered.

Employers generally recognize that they get more than 2 x half-time value out of one shared full-time post. In roles that can become truly immeasurable, with demand expanding unpredictably, job-sharing in a way that is fair and balanced, in respect of the sharers and of their other commitments, can be difficult. Devices commonly used to manage workload-creep in more conventional work settings (like blocking out certain days or switching off emails) don't lend themselves well to a political setting where being perceived as "unavailable" could be damaging.

Fundamentally: what is the Full Time Equivalency of a job that is potentially infinite? To entice someone with caring or other duties into a "part-time" political leadership role, how many hours must they prepare to commit? The usual formula of halving the full time commitment begs the question: how many hours is that? Perhaps if we'd like to see more job-sharing in politics, as a way of achieving more diversity in politics, then we must attempt to address work-life balance for all in politics.

**Context of Rapid Change**

Demand management, particularly during austerity, requires constant transformation. Getting abreast of an unfamiliar portfolio is a big task; newcomers or "returners" have a lot to learn in a short time to begin being effective. For job-sharers, with less time available, this contextual familiarisation can be a disproportionate burden, and both have to do it. Frequent changes in organizational structure, personnel and loss of resource in general make it more of a challenge; challenges take time to resolve, and job-sharers have less time. Incumbents – whether full-time or job-sharing - who retain a familiar portfolio may cope better with rapid change, once they're comfortable in their role. But incumbency is, research says, an enemy of diversity. If we seek more change in politics and a more open door to people in different situations, the context of rapid change in modern Welsh politics must be recognized as a difficulty to navigate.

**Remuneration**

We anticipate that it will soon be legally easier for some political roles in Wales to be shared. Until then, as explained above, sharers must "take turns" to comply with the law. In Swansea we have had three-month rotations between the full senior member salary and the basic ward member rate. This fluctuation of income can be problematic, and raise the age-old problem of the role only attracting someone with separate financial security to carry them through it.

A Cabinet role is a continuous 12-month commitment, whether job-shared or full-time, and the Independent Remuneration Panel for Wales needs to be able to recognize this and allow consistent, fair payments. Also, the fact that a pro-rata salary for a job-sharing politician becomes so low as to be an unattractive part-time employment prospect inevitably begs the question of whether the full-time rate is sufficient to be a viable job choice for someone who doesn't have a pension, an inheritance, or a well-paid partner to back them up.

**Conclusion**

Pioneering is never comfortable, and we are proud to have started this journey and gathered insights to share. The job-sharers of Swansea cabinet, together with a supportive and responsive Leader, continue to learn and adapt. While job-sharing may create more opportunities for some, the challenges involved reflect some of the deeply ingrained cultures of UK politics, which all of us keen to promote diversity in democracy must recognize, and these are not something which job-sharing, alone, can resolve. To encourage younger, or otherwise diverse candidates to step up for political roles, work is needed to challenge cultures, systems and expectations on a broader scale.

# Assembly Reform

*January 2020*


## Summary

Wales Environment Link supports the case for increasing the number of Assembly Members in Wales for the following reasons:

- Assembly Members are spread thinly between too many Committees;
- Having such a limited number of AMs has a detrimental impact on their ability to undertake effective policy and legislative scrutiny, making it difficult for them to build up expertise in important areas of policy; and
- Wales may not be able to accept further devolved powers, and continue to develop politically, if the Assembly does not increase in size.


**The capacity of the Assembly, how it fulfils its responsibilities, and the impact it has**

The National Assembly for Wales has the smallest number of political representatives of any country in the UK. The Expert Panel's report demonstrates the impact this has on their ability to participate in committees by comparing Wales with Scotland. The percentage of AMs that sit on 2 or 3 committees is 42% and 12% respectively, compared with 29% of MSPs that sit on 2 committees and 4% on three committees in Scotland.[1] We believe Assembly Members are spread too thinly amongst scrutiny committees and this has a detrimental impact on Assembly Members' capacity to gain expertise in important areas of policy, such as the environment. It also impacts negatively on their ability to effectively scrutinise Welsh Government policy and legislation.

We note that the Expert Panel reported that "anecdotally, we understand from Members that time available to them to prepare for meetings is limited to the extent that they may be unable to engage with the evidence or issues in sufficient depth."[2] With the addition of further law making powers and the removal of overarching scrutiny mechanisms at an EU level, the role of the Assembly in holding the Welsh Government to account on future environmental policy and legislation will be even more important than it currently is, and workload in this area is likely to increase post-Brexit. Therefore, WEL agrees with the Expert Panel's recommendation that the number of Members should be increased to between 80 and 90 Members.

[1] A Parliament that Works for Wales, Table 5, p78
[2] A Parliament that Works for Wales, p80

We appreciate that this comes with a significant cost, but we strongly believe that the costs of poor environmental policy and legislation that could be passed if there is not enough resource to support effective scrutiny would be far higher. Our environment needs strong laws and policy to be in place and properly implemented. We need our Assembly Members to have the capacity to learn about these issues fully and hold the Welsh Government to account if they are not being addressed. The opportunity costs are the biggest concern for the environmental NGO sector in Wales if our Assembly Members are stretched too thin to carry out their roles effectively. We agree with the Expert Panel's view that "Even marginal improvements in the scrutiny of the Welsh Government's expenditure could reap significant dividends to the taxpayer as a result of improved legislation, policy and decision-making."

**Any alternative measures that could be taken in the short term to ensure the Assembly has the capacity it needs to carry out its representative, scrutiny and legislative functions.**

WEL has noted with interest the comprehensive review of alternative measures that the Expert Panel detailed in their report. It appears to us that many capacity building measures have already been introduced and those that haven't been introduced have been dismissed due to questions about how democratic they are. Fundamentally, if the workload of the Assembly continues to increase then the number of Assembly Members will need to increase, otherwise it will become a barrier to further devolution of powers. We believe it is already an impediment to effective scrutiny.

**Wales Environment Link (WEL)** is a network of environmental, countryside and heritage Non-Governmental Organisations in Wales, most of whom have an all-Wales remit. WEL is a respected intermediary body connecting the government and the environmental NGO sector in Wales. Our vision is a healthy, sustainably managed environment and countryside with safeguarded heritage in which the people of Wales and future generations can prosper.

This paper represents the consensus view of a group of WEL members working in this specialist area. Members may also produce information individually in order to raise more detailed issues that are important to their particular organisation.

Baltic House, Mount Stuart Square Cardiff, CF10 5FH
Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Tel: 02920 497 509 www.waleslink.org

Registered Charity Number / Rhif Elusen Gofrestredig: 1022675
Chair / Cadeirydd: Roger Thomas
Joint Directors / Cyd-Gyfarwyddwyr: Susan Evans & Karen Whitfield

Eitem 3.2

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

**CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 2**

Dawn Bowden AC

Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

20 Ionawr 2020

Annwyl Dawn,

Yn ein cyfarfod ar 8 Ionawr buom yn trafod eich llythyr ynghylch goblygiadau posibl i bwyllgorau pe bai unrhyw newid ym maint y Cynulliad.

Dywedodd yr Aelodau pe bai mwy o Aelodau Cynulliad ac aelodaeth pwyllgorau, byddai'n rhoi cyfle iddynt arbenigo mewn meysydd pwnc o fewn cylch gwaith y pwyllgor. Er enghraifft, drwy sefydlu is-grwpiau ar bynciau penodol.

Dywedasant hefyd fod maint presennol pwyllgorau yn golygu y gofynnir iddynt yn aml i ddirprwyo er mwyn sicrhau bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli ym mhob cyfarfod, sy’n gadael llai o amser i baratoi ar gyfer y materion a drafodir, a mynd ar eu trywydd.

Cytunodd yr Aelodau y byddai ansawdd ein gwaith craffu yn gwella pe bai mwy o aelodau pwyllgorau, gan greu mwy o gapasiti i ddatblygu gwybodaeth drwy arbenigo.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee



Dawn Bowden AC
Cadeirydd, y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddDiwygio@cynulliad.cymru

24 Ionawr 2020

Annwyl Dawn

**Goblygiadau posibl yn sgil unrhyw newid ym maint y Cynulliad**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2019 yn gofyn am ein barn am y goblygiadau posibl i Bwyllgorau'r Cynulliad yn sgil unrhyw newid ym maint y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi trafod y materion penodol a godwyd ac mae'n ymateb gyda'r sylwadau cyffredinol a ganlyn:

*P'un a yw maint presennol y Cynulliad wedi arwain at unrhyw oblygiadau neu gyfyngiadau ar waith eich Pwyllgor neu'r ffordd yr ydych yn mynd i'r afael â'r gwaith o graffu ar bolisi a gwaith craffu deddfwriaethol ac ariannol ar y materion yn eich cylch gwaith.*

Rydym o'r farn bod maint y Cynulliad yn effeithio ar y gwaith y gall pwyllgorau ei wneud, yn bennaf oherwydd lefel y galw sydd ar Aelodau'r Cynulliad ar hyn o bryd. Oherwydd maint presennol y Cynulliad, mae nifer o Aelodau yn aelodau o sawl pwyllgor, sy'n cyfyngu ar faint pwyllgorau a'r amser sydd ar gael iddynt gyfarfod. Mae amserlen gyfredol y pwyllgor wedi cael ei chynllunio, yn rhannol, i leihau gwrthdaro yn amserlenni'r Aelodau oherwydd pwyllgorau yn cyfarfod ar yr un pryd.

Mae'r materion hyn yn gyffredin i bob pwyllgor, ond mae'r effaith benodol ar y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd yn ymwneud â'r ffaith ei fod yn cyfarfod am ddwy awr bob pythefnos. Mae hyn yn dylanwadu ar drefn a strwythur y cyfarfodydd, gan ei fod yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i gymryd tystiolaeth fanylach ar y materion a godir yn y deisebau. Felly, wrth amserlennu sesiynau o'r fath, rhaid i'r

Pwyllgor flaenoriaethu'n gadarn i sicrhau ystyriaeth deg i bob deiseb sy'n dod ger ein bron, tra byddwn hefyd yn cynnal gwaith craffu manwl lle bo hynny'n bosibl ac yn fuddiol.

Pe bai ganddo fwy o ryddid i gynnal cyfarfodydd hwy neu i gyfarfod yn amlach, byddai gan y Pwyllgor y gallu i gymryd mwy o dystiolaeth deisebwyr wyneb yn wyneb a chynnal mwy o ymholiadau manwl.

*Sut y gallai unrhyw newidiadau diweddar neu ddisgwyliedig i bwerau neu gyfrifoldebau'r Cynulliad, neu'r cyd-destun cyfansoddiadol ehangach, effeithio ar gylch gwaith eich Pwyllgor neu sut rydych chi'n cyflawni eich rôl.*

Mae'n bosibl y byddai newidiadau i bwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad yn effeithio ar y Pwyllgor Deisebau trwy ehangu cwmpas y broses ddeisebu. O dan y rheolau ynghylch derbynioldeb deisebau i'r Cynulliad, mae gofyniad bod y camau gweithredu y gofynnir amdanynt o fewn pwerau'r Cynulliad neu bwerau Llywodraeth Cymru. Felly, gallai ehangu cwmpas y pwerau hynny neu'r cyfrifoldebau hynny arwain at gynnydd cyfatebol yn nifer y deisebau derbyniadwy a gyflwynir. Fodd bynnag, byddai'n anodd rhagweld yn fanwl gywir effaith unrhyw newid penodol.

*Unrhyw oblygiadau y gallai cynnydd ym maint y Cynulliad eu cael i waith pwyllgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth y maent yn eu derbyn.*

Rydym o'r farn y byddai goblygiadau posibl yn sgil y ddau fater uchod ar gyfer capasiti gwasanaethau cymorth presennol y broses ddeisebau a'r Pwyllgor Deisebau, yn enwedig mewn perthynas â'r cymorth gweinyddol sydd ei angen i redeg y broses ddeisebau a'r Pwyllgor Deisebau. Gallai Pwyllgor Deisebau yn y dyfodol liniaru effaith y newidiadau hyn rywfaint drwy wneud newidiadau i'w ffyrdd o weithio, ond mae'n debygol y byddai cynnydd yn nifer cyfarfodydd y Pwyllgor a/neu yn nifer ei sesiynau craffu manwl yn golygu cynnydd yn lefel y cymorth a fyddai ei angen.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Byddem yn hapus i roi mwy o fanylion yn ôl yr angen.

Yn gywir




Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd

Eitem 3.4

**CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 4**

Dawn Bowden AC

Cadeirydd, Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

24 Ionawr 2020

Annwyl Dawn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2019 mewn cysylltiad â goblygiadau posibl unrhyw newid ym maint y Cynulliad i bwyllgorau'r Cynulliad. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid eich llythyr yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2020.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod un maes o'i waith a allai fod wedi'i wella gan gynnydd o ran capasiti yn ymwneud â'r datganoli cyllidol sydd wedi digwydd yn ystod y Pumed Cynulliad.

Mae'r newidiadau cyllidol yng Nghymru o bwysigrwydd cyfansoddiadol, ac mae'r effaith ar refeniw Llywodraeth Cymru o ganlyniad iddynt wedi newid y ffordd y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn gweithio. Rhaid cydbwyso gallu'r Pwyllgor i ystyried datblygiadau cyllidol â phwysau'r cylchoedd cyllideb, â goruchwyliaeth y Pwyllgor o waith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru ac â chraffu ar oblygiadau ariannol deddfwriaeth.

Mae llwyth gwaith mawr y Pwyllgor Cyllid, ynghyd â'r datblygiadau cyllidol newydd yn amlwg yn effeithio ar y capasiti a'r amser sydd ar gael i'r Aelodau ddeall y pwerau newydd yn llawn ac, yn ei dro, ar graffu ar Lywodraeth Cymru yn effeithiol. Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o Aelodau'n eistedd ar sawl pwyllgor, sydd eto'n effeithio ar eu gallu i wneud gwaith cefndir cyn sesiynau pwyllgor.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
0300 200 6565

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Eitem 3.5

**CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 5**

Dawn Bowden
**Cadeirydd, Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

27 Ionawr 2020

**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Annwyl Dawn,

Diolch am eich llythyr yn gofyn am ein barn ar oblygiadau posibl unrhyw newid ym maint y Cynulliad i bwyllgorau'r Cynulliad. Fel y gwyddoch, buom yn trafod hyn yn ein cyfarfod pwyllgor ar 9 Ionawr. Roedd yn ddefnyddiol eich bod yn gallu darparu rhywfaint yn rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, fel rhan o'r trafodaethau hyn. Nodaf na wnaethoch chi na Huw Irranca-Davies, sydd hefyd yn aelod o'r ddau bwyllgor, gyfrannu at y safbwyntiau yn y llythyr hwn.

Un o'r pwyntiau cyffredinol y gwnaethom eu hystyried oedd bod rolau a chyfrifoldebau'r Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol ers ei sefydlu. Bellach mae gennym bwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol, sydd yn amlwg wedi bod yn newid sylweddol, yn enwedig ar gyfer gwaith pwyllgorau'r Cynulliad.

- **A yw maint presennol y Cynulliad wedi arwain at unrhyw oblygiadau neu gyfyngiadau i waith eich Pwyllgor neu'r ffordd yr ydych yn gweithredu o ran polisi, deddfwriaeth a chraffu ariannol ar y materion o fewn eich cylch gwaith.**

Er na allwn fod yn sicr mai maint y Cynulliad sydd i gyfrif bod gan ein pwyllgor bortffolio mor eang ac amrywiol, nodwn, mewn deddfwrfeydd mwy, bod y cyfrifoldebau sy'n rhan o waith ein pwyllgor ni yn cael eu rhannu ar draws nifer o bwyllgorau.

Mae Senedd yr Alban, sy'n gymharydd agos oherwydd bod ei phwyllgorau yn craffu ar bolisi a deddfwriaeth, yn gwahanu prif elfennau ein portffolio yn ddau bwyllgor gwahanol: Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae yna bwyllgorau eraill hefyd sy'n gwneud gwaith yr ydym ni wedi'i gwmpasu, gan gynnwys y

Pwyllgor Nawdd Cymdeithasol, y gwnaethom ei gyfarfod fel rhan o'n gwaith diweddar a oedd yn edrych ar ddatganoli budd-daliadau.

Mae gan Gynulliad Gogledd Iwerddon fodel tebyg i fodel yr Alban a'n model ninnau, gyda phwyllgorau swyddogaeth ddeuol yn ymgymryd â gwaith craffu ar bolisi ac ar ddeddfwriaeth. Yno, mae'r materion sydd o fewn ein cylch gwaith wedi'u gwahanu rhwng y Pwyllgor Gweithredol, y mae ei gylch gwaith yn cwmpasu cydraddoldeb a hawliau dynol, a'r Pwyllgor Cymunedau, sy'n cwmpasu tai a llywodraeth leol.

Yn amlwg mae strwythur pwyllgorau yn San Steffan yn wahanol, yn benodol gan nad yw'r pwyllgorau dethol yn ymgymryd â gwaith craffu deddfwriathol ar Filiau a gyflwynir. Ac eto, maent hwythau hefyd yn rhannu'r portffolio ar draws dau bwyllgor, sef y Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb. Hefyd, mae'r Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol.

Yn amlwg mae ehangder ein cylch gwaith yn effeithio ar ein rhaglen waith. Mae hyn heb y cyfyngiadau pellach a roddir ar ein pwyllgor gan y llwyth gwaith deddfwriaethol trwm sy'n naturiol yn dod o fewn ein cylch gwaith. Hyd yma, yn y Cynulliad hwn rydym wedi ystyried

- Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017;
- Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018;
- Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019; a
- Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru);

Ar hyn o bryd rydym hefyd ar ganol y broses o graffu ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), un o'r Biliau mwyaf sylweddol ac arwyddocaol a gyflwynwyd yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Nodwn fod Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 hefyd o fewn ein cylch gwaith, ond fe'i cyfeiriwyd at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol oherwydd ein bod ar y pryd yn ystyried dau Fil arall. Mae dosbarthu deddfwriaeth ar draws pwyllgorau yn rhywfaint o loteri, gan ei fod yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth a gyflwynir gan y Llywodraeth, ar aelodau meinciau cefn, ar Gomisiwn y Cynulliad ac ar y pwyllgorau eu hunain. Er, wrth ystyried cylch gwaith pwyllgorau ar ddechrau pob Cynulliad, gallai hyn gael ei ystyried, a dylid gwneud hynny. Mae'n amlwg bod rhai meysydd polisi yn fwy tebygol o arwain at gyflwyno deddfwriaeth.

Nodwn fod ein Pwyllgor blaenorol wedi ystyried 30% o'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, sef rhywbeth a amlygwyd yn ei adroddiad etifeddiaeth. Ar y

cam hwn yn y Cynulliad hwn, rydym hefyd wedi ystyried 30% o'r holl ddeddfwriaeth a gyflwynwyd, a chydag un Bil yn cael ei ystyried gennym ni ar hyn o bryd, ac o leiaf ddau arall yn debygol o gael eu trosglwyddo atom, gallwn ragweld, ar ddiwedd y Cynulliad hwn, ni fydd y Pwyllgor gyda'r gyfran fwyaf o ddeddfwriaeth yn cael ei throsglwyddo ato.

Ystyr hyn yw, yn ymarferol, pan fyddwn hefyd yn ystyried gwaith dilynol ar ein gwaith blaenorol, sy'n rhan bwysig o'n rhaglen, gydag ychydig dros 12 mis ar ôl o'r Cynulliad hwn, o bosibl mai gallu i gyflawni dim ond un neu ddau yn rhagor o ymchwiliadau polisi pellach sydd gennym. O ystyried ehangder ein cylch gwaith, mae hyn ymhell o fod yn ddymunol.

Fel pwynt pellach wrth fynd heibio, gallai anawsterau o ran gallu gael eu gwaethygu gan benderfyniadau a wneir ynghylch yr amser a ddyrennir ar gyfer craffu ar Filiau. Ar hyn o bryd rydym yn craffu ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), sy'n hynod eang. Fel y gwyddoch, rydym wedi cael pryderon sylweddol ynghylch yr amserlen sydd ar gael inni ymgymryd â'n gwaith craffu ar y Bil hwn.

Mae'r lleihad diweddar ym maint y Pwyllgor o wyth aelod i chwech aelod, hefyd wedi dangos ei effaith. Mae hyn o ran materion logistaidd sylfaenol, yn ogystal â materion ehangach. Rydym yn rheolaidd yn agos at fod heb gworwm, yn enwedig ar ddechrau ac ar ddiwedd cyfarfodydd. Mae'r maint llai hefyd yn rhoi rhagor o bwysau ar yr Aelodau hynny sydd ar y Pwyllgor. Mae hon yn her benodol ar hyn o bryd pan mae'n rhaid i ni wneud y defnydd gorau posibl o'r amser cyfyngedig sydd ar gael inni er mwyn sicrhau ein bod yn craffu yn llawn ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Busnes.

Roedd ein cyfarfod ar 23 Ionawr 2020, yn amlygu'r heriau hyn.  Yn y cyfarfod hwn roeddem yn gorffen ein gwaith o gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Roedd hyn yn cynnwys rhai o'r sesiynau pwysicaf, a oedd yn cynnwys rhai o arweinwyr cynghorau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; prif weithredwyr, yn ogystal â chyfreithwyr llywodraeth leol. Roeddem i fod i gwrdd rhwng 9.00am a 3.15pm. Ar ddechrau'r cyfarfod, roeddem hefyd yn ystyried ein hadroddiad drafft ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, mewn sesiwn breifat.

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, roeddem yn gwybod mai dim ond pedwar Aelod fyddai gennym felly y byddai yn "fain arnom" o ran cworwm drwy gydol y dydd.

Er ein bod i fod i ddechrau am 9.00am, fi oedd yr unig Aelod o'r Pwyllgor a oedd yn bresennol. Dim ond am 9.17 yr oedd cworwm ar gael. Roedd hyn yn rhoi 13 munud inni ystyried ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft. Roedd hyn yn amlwg yn annigonol, a chytunwyd i ailedrych ar yr adroddiad ar ddiwedd y cyfarfod. Roedd amser eisoes yn brin i ystyried a chytuno ar yr adroddiad yn yr hanner awr yr oeddem wedi'i drefnu, ond oherwydd y gyllideb a'r amserlenni o ran y Bil Llywodraeth Leol, hwn oedd yr unig amser a

oedd ar gael. Roedd yn amlwg yn amhosibl ei gyflawni mewn 13 munud. Ar yr adeg hon, dim ond 3 Aelod a oedd yn bresennol o hyd, felly roeddem â chworwm. Yna dywedodd un o'r Aelodau hyn na allai fod yn bresennol yn y sesiynau ar ôl cinio.

Fe wnaethom ddechrau ein sesiwn dystiolaeth gyntaf, gyda phanel o chwe thyst, yr oedd pedwar ohonynt yn Arweinwyr Cynghorau o bob rhan o Gymru. Roedd 3 Aelod Cynulliad i holi'r tystion hyn.

Ar yr adeg hon, roedd yn edrych yn debygol y byddai'n rhaid i ni ganslo sesiwn y prynhawn, gan gynnwys dwy sesiwn dystiolaeth ar y Bil. Ni fyddem wedi gallu aildrefnu'r sesiynau hyn, a byddai hyn wedi achosi bylchau o ran ein tystiolaeth. Byddai hefyd wedi bod yn hynod annheg i'r tystion hynny a oedd wedi treulio amser yn paratoi eu tystiolaeth ac wedi rhoi o'u hamser i ddod i'r Senedd i roi tystiolaeth.

Yn y pen draw, am oddeutu 11.30 o'r gloch, fe wnaethom sicrhau dau o ddirprwyon i fod yn bresennol yn y sesiwn prynhawn. Er ein bod yn gwerthfawrogi eu hamser a'u cyfraniad i'r Pwyllgor yn fawr iawn, nid yw'n hollol deg i'r Aelodau hynny bod disgwyl iddynt fynd i'r afael â Bil hynod amrywiol ac eang gyda dim ond ychydig dros awr o rybudd. Yn ffodus roedd y ddau Aelod yn gyfranogwyr llawn yn y cyfarfod.

Wrth amlinellu'r enghraifft benodol hon, hoffwn fod yn glir, nad wyf yn beirniadu'r Aelodau unigol dan sylw. Rydym i gyd yn deall bod salwch neu ymrwymiadau eraill weithiau'n effeithio ar ein gallu i fod yn bresennol mewn pwyllgorau. Fodd bynnag, oherwydd y pwyllgorau o faint llai, mae hyn yn lleihau gwytnwch y Pwyllgor pan na all Aelodau fod yn bresennol. Hefyd oherwydd bod Aelodau'n eistedd ar sawl pwyllgor, mae hyn yn lleihau'r gronfa o Aelodau a all ddirprwyo ar fyr rybudd.

Er fy mod yn falch na fu'n rhaid i ni ganslo busnes, ni allaf gymryd arnaf na fyddai cael dim ond dau o'n haelodau parhaol ar gyfer cyfarfod yn ei gyfanrwydd wedi effeithio ar ein gwaith craffu, ac ar ein gallu i sicrhau trafodaeth lawn ar ein hadroddiad ar y gyllideb.

Yn ogystal â materion ymarferol o ran cworwm, mae pwyllgorau llai yn cyfyngu ar ein gallu i greu is-grwpiau neu i benodi rapporteurs i arwain ar feysydd penodol. Unwaith yn rhagor, i bwyllgor sydd â chylch gwaith mor eang â'n un ni, mae hyn yn cael effaith benodol arnom ni. Po leiaf yw'r pwyllgor, y mwyaf cyfyngedig y mae o ran ei hyblygrwydd i ddefnyddio'r dull gweithredu gorau ar gyfer pob ymchwiliad. Nodwn fod y defnydd o is-grwpiau, a oedd yn fwy cyffredin mewn Cynulliadau blaenorol wedi lleihau yn y Cynulliad hwn, gyda dim ond un yn cael ei sefydlu.

Mae pwyllgorau llai hefyd yn lleihau'r ystod o safbwyntiau a diddordebau ymhlith ei aelodau. Er bod cydbwysedd rhwng y pleidiau yn aros yr un fath, po fwyaf o aelodau sy'n

eistedd ar y Pwyllgor, yr ehangach yw'r safbwyntiau a'r profiadau a adlewyrchir yn nhrafodaeth, ystyriaeth a phenderfyniadau'r pwyllgor.

Wrth ystyried yr anawsterau yr ydym wedi'u nodi uchod, yn enwedig cylch gwaith eang ein pwyllgor a'r llwyth gwaith deddfwriaethol trwm, mae'n dilyn yn rhesymegol y byddai rhagor o Aelodau'r Cynulliad yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Fel y dywedwyd ar y dechrau, mae pwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol yn enwedig gyda dyfodiad pwerau o ran deddfwriaeth sylfaenol, ond mae nifer yr Aelodau Cynulliad wedi aros yn 60. Byddai rhagor o Aelodau Cynulliad yn caniatáu i ragor o bwyllgorau rannu'r gwaith. Tra y byddai rhagor o Aelodau yn aelodau o bwyllgorau yn helpu pwyllgorau i wneud rhagor.

✦ Sut y gallai unrhyw newidiadau diweddar neu ddisgwyliedig i bwerau neu gyfrifoldebau'r Cynulliad, neu'r cyd-destun cyfansoddiadol ehangach, effeithio ar eich cylch gwaith neu sut rydych yn cyflawni eich rôl.

Yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi adroddiad yn galw am ragor o ddatganoli o ran rhai elfennau o'r system les i'r Cynulliad Cenedlaethol. Pe bai'r mater hwn yn cael ei ddatganoli, nid yw'n eglur a fyddai'n dod o fewn ein cylch gwaith, fodd bynnag, o ystyried y cysylltiadau agos ag elfennau o'n portffolio presennol, byddem yn disgwyl y byddai unrhyw bwyllgor olynol yn debygol o fod â diddordeb brwd.

✦ Unrhyw oblygiadau y gallai cynnydd ym maint y Cynulliad eu cael o ran gwaith pwyllgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth y maent yn eu cael.

Nid oes gennym ddim sylwadau penodol ar y mater hwn. Fodd bynnag, bydd gennym ddiddordeb mewn gweld canfyddiadau gwaith eich pwyllgor.

✦ Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut mae eich Pwyllgor yn asesu effaith ei waith craffu, ac yn nodi enghreifftiau o waith craffu effeithiol neu o golli cyfleoedd.

Un o'r pethau yr ydym wedi'i flaenoriaethu fel Pwyllgor yw neilltuo digon o amser ar gyfer gwaith dilynol. Nid yw ein gwaith wedi'i gwblhau pan fyddwn yn cyhoeddi adroddiad ac yn cynnal dadl arno. Yn benodol, byddem yn nodi'r gwaith yn ymwneud â chysgu ar y stryd, y gwnaethom barhau i'w ddilyn yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad sylweddol yn 2018. Credwn fod ein gwaith dilynol, a'n penderfyniad i weld rhagor o gyflymder a brys wrth ymdrin â'r mater hwn, wedi cyfrannu at sefydlu'r Grŵp Gweithredu Digartrefedd gan Lywodraeth Cymru a'r ffocws o'r newydd ar leihau cysgu allan a digartrefedd.

Yn fwy cyffredinol, mae meysydd llwyddiant eraill yn cynnwys ein gwaith ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a fu â rhan hanfodol yn natblygiad cynllun cyflawni newydd ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan Lywodraeth Cymru. Drwy gydol yr ymchwiliad hwnnw,


gwelsom hefyd gamau'n cael eu cymryd ar unwaith i ymdrin â rhai o'r problemau'n ymwneud ag ansawdd llety lloches.

Yn fwy diweddar, credwn fod ein hymchwiliad i eiddo gwag, wedi sicrhau gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, yn amlwg drwy roi rhagor o amser i wneud gwaith dilynol o ran ymchwiliadau, wrth inni fynd ymlaen drwy'r Cynulliad a chael rhagor o waith i'w ddilyn, mae hynny'n effeithio ar faint o amser sydd ar gael i ni wneud gwaith polisi newydd. Mae hwn yn fater yr ydym yn ymwybodol ohono wrth wneud penderfyniadau am ein rhaglen waith.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon o ddefnydd i'r pwyllgor, ond rhowch wybod i mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir,



John Griffiths

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Dawn Bowden AC
Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

27 Ionawr 2020

Annwyl Dawn,

**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Diolch i chi am ofyn ein barn ar waith eich pwyllgor. Byddwch yn ymwybodol o rywfaint o'n gwaith o'ch amser fel aelod o'r pwyllgor hwn. Wrth gwrs, rydym hefyd yn rhannu dau Aelod â'ch pwyllgor chi, sef Delyth Jewell a Huw Irranca-Davies.

Rydym wedi ceisio ymateb i bob un o'r cwestiynau a ofynnir yn eich llythyr, fel a ganlyn:

**Cwestiwn 1: P'un a yw maint presennol y Cynulliad wedi arwain at unrhyw oblygiadau neu gyfyngiadau ar waith eich Pwyllgor neu'r ffordd yr ydych yn mynd i'r afael â'r gwaith o graffu ar bolisi a gwaith craffu deddfwriaethol ac ariannol ar y materion yn eich cylch gwaith**

Nid yw maint presennol y Cynulliad wedi arwain at unrhyw gyfyngiad ar y ffordd yr ydym yn gweithio na'r ffordd yr ydym yn mynd ati i graffu ar faterion sydd o fewn ein cylch gwaith.

Roedd ffurfio'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ddechrau'r Cynulliad hwn, i ymateb i'r gwaith craffu ychwanegol sylweddol a oedd yn wynebu'r Cynulliad, yn dangos bod rhywfaint o gapasiti gan y Cynulliad o ran ei waith craffu i ffurfio pwyllgor ychwanegol.

Mae hyn, ynghyd ag estyniad cymedrol o'r amser sydd ar gael ar gyfer busnes y Cynulliad, wedi golygu nad ydym wedi wynebu unrhyw gyfyngiadau penodol ar ein gwaith.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
0300 200 6565

Cododd un mater o ran capasiti yn 2018, pan benderfynodd y Pwyllgor Busnes gyfeirio Bil at y Pwyllgor nad oedd yn gysylltiedig â'n cylch gwaith craidd.

Gwnaethom ymateb i hyn drwy sefydlu is-bwyllgor i drafod y Bil dan sylw a chytuno ar slot ar wahân i gynnal cyfarfodydd.

Credwn fod gwneud hyn yn dangos unwaith eto ei bod yn bosibl, gyda'r nifer bresennol o Aelodau'r Cynulliad, i ni ddod o hyd i gapasiti ychwanegol ar gyfer gwaith craffu penodol drwy amserlennu gofalus a chynnull pwyllgorau sydd â nifer fach o aelodau.

Yn yr achos uchod, ein dewis ni fyddai i'r Pwyllgor Busnes fod wedi sefydlu pwyllgor ad hoc i drafod y Bil yn hytrach na chyfeirio'r Bil atom ni (neu, yn wir, unrhyw bwyllgor arall a oedd â chylch gwaith nad oedd yn gysylltiedig â'r maes polisi yr oedd y Bil yn ei drafod). Byddai'r effaith ar gapasiti ac amserlenni Aelodau'r Cynulliad wedi bod yr un fath, ond byddai wedi osgoi'r angen i bwyllgor arall gymryd rhan yn y broses.

Yn fwy diweddar, gostyngwyd nifer yr Aelodau ar ein pwyllgor o wyth i chwech. Nid yw hyn wedi achosi unrhyw broblemau o'n safbwynt ni.

**Cwestiwn 2: Sut y gallai unrhyw newidiadau diweddar neu ddisgwyliedig i bwerau neu gyfrifoldebau'r Cynulliad, neu'r cyd-destun cyfansoddiadol ehangach, effeithio ar gylch gwaith eich Pwyllgor neu sut rydych chi'n cyflawni eich rôl.**

Mae proses Brexit wedi arwain at nifer o dasgau newydd a sylweddol o ran gwaith craffu. Er enghraifft, yr angen i ganolbwyntio ar y cysyniad sy'n dod i'r amlwg o farchnad fewnol yn y DU (gan gynnwys craffu ar fframweithiau polisi cyffredin ledled y DU), y goblygiadau i Gymru sy'n deillio o gytundebau rhyngwladol y DU, a chyflwr cyfansoddiad y DU yn fwy cyffredinol.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei phwyslais ar gysylltiadau rhyngwladol. Mae creu portffolio Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol a chyhoeddi strategaeth ryngwladol newydd yn ddiweddar yn dangos hyn. Mae'r newid hwn yng ngweithgarwch y Llywodraeth wedi cyd-fynd â rhagor o waith craffu i'r Pwyllgor.

Fodd bynnag, i ryw raddau, mae'r gwaith newydd hwn yn cymryd lle gwaith presennol y Cynulliad ar faterion Ewropeaidd.

Ein bwriad yw adolygu ein gwaith ddechrau 2021, gan nodi unrhyw swyddogaethau craffu parhaus y bydd angen eu trafod yn y Chweched Cynulliad o bosibl.

Nid ydym eto wedi trafod ai pwyllgor penodol fyddai yn y sefyllfa orau i ymdrin â swyddogaethau craffu o'r fath neu a ddylid eu prif ffrydio ar draws gwaith y pwyllgorau (fel sydd wedi digwydd gyda materion Ewropeaidd).

Yn y pen draw, Pwyllgor Busnes newydd y Chweched Cynulliad fydd yn penderfynu sut y dylid ymdrin â'r swyddogaethau craffu hyn.

**Cwestiwn 3: Unrhyw oblygiadau y gallai cynnydd ym maint y Cynulliad eu cael i waith pwyllgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth y maent yn eu cael.**

Mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau mewn perthynas â hyn gan fod llawer o ffactorau eraill sy'n effeithio ar waith pwyllgorau a'r cymorth y maent yn ei gael.

Er enghraifft, mae penderfyniadau ar nifer y pwyllgorau, cylchoedd gwaith, amserlennu, cydbwysedd o ran y pleidiau a maint yr aelodaeth yr un mor arwyddocaol yn y cyd-destun hwn â chyfanswm Aelodau'r Cynulliad sydd ar gael i wasanaethu ar bwyllgorau.

Yn ein profiad ni, gall pwyllgorau cymharol fach weithio'n effeithiol. Un agwedd bwysig ar ein dull strategol ni fu cydnabod y gall cyn lleied â phedwar aelod pwyllgor ymroddedig wneud gwaith craffu effeithiol.

**Cwestiwn 4: Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut mae'ch Pwyllgor yn asesu effaith ei waith craffu, ac enghreifftiau o graffu effeithiol neu golli cyfleoedd.**

Yn gynnar ym modolaeth y Pwyllgor, gwnaethom bennu dull strategol o weithio. Rydym wedi dychwelyd at y dull hwn ar sawl achlysur i wirio a ydym wedi bod yn gweithio yn unol ag ef ac i asesu a oedd angen ei addasu.

Ymarfer mewnol yw hwn i raddau helaeth, er ein bod wedi cael rhywfaint o adborth allanol fel rhan o'r broses adolygu.

Mae'n hynod o anodd mesur effaith gwaith craffu, o ystyried mai anaml y bydd yr unigolion yr ydym yn ceisio dylanwadu arnynt yn cydnabod effaith ein gwaith craffu. Mae'r effaith a gawn yn aml yn anodd ei meintioli.


Serch hynny, ein bwriad ar hyn o bryd, wrth adolygu ein gwaith ar ddiwedd y Cynulliad, yw asesu ein hunain yn erbyn y dull strategol a bennwyd gennym a gofyn am adborth allanol i helpu i lywio'r asesiad hwnnw.

Bydd hyn yn ein helpu i nodi swyddogaethau craffu posibl ar gyfer y Chweched Cynulliad ac unrhyw argymhellion ar gyfer ymdrin â swyddogaethau o'r fath.

Ar lefel macro, mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei nod o sicrhau bod y goblygiadau i Gymru sy'n deillio o broses Brexit wedi cael eu trafod gan y rhai sy'n arwain proses Erthygl 50 ar lefel y DU ac ar lefel yr UE. Gellir dangos hyn drwy ein cyfarfodydd â'r prif negodwyr yng Nghomisiwn, Senedd a Chyngor yr UE. Hefyd, mae cyfeiriadau at waith y Pwyllgor yn adroddiadau pwyllgorau Senedd y DU ac ar lawr Tŷ'r Cyffredin wedi dangos lefel o ddylanwad. Mae angen gwneud rhagor o waith i weld a ellir nodi canlyniadau y gellir eu meintioli o hyn.

Diolch eto am roi cyfle i ni gyfrannu at eich gwaith.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**National Assembly for Wales**
Standards of Conduct Committee



Dawn Bowden AC

Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

27 Ionawr 2020

**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Annwyl Dawn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2019, yn gwahodd barn y Pwyllgor Safonau am y goblygiadau posibl yn sgil unrhyw newid ym maint y Cynulliad. Fe wnaeth y Pwyllgor drafod hyn yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2020.

Fel y gwyddoch, cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau yw ymchwilio i gwynion sy'n cael eu cyfeirio at y Comisiynydd Safonau; trafod unrhyw faterion o egwyddor ynghylch ymddygiad Aelodau'r Cynulliad; pennu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion; a threfniadau ar gyfer Cofrestr Buddiannau'r Aelodau ac unrhyw gofnodion cyhoeddus eraill a bennir gan y Rheolau Sefydlog.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n ddiolchgar am y cyfle i wneud sylw ar y goblygiadau posibl yn sgil unrhyw newid i faint y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol mai nifer y cwynion a ddaw i law yn ystod Cynulliad sy'n pennu ei lwyth gwaith yn bennaf. Nid oes gan y Pwyllgor farn ar hyn o bryd am sut y gallai newid ym maint y Cynulliad ddylanwadu ar nifer y cwynion y mae'n eu trafod. I'r perwyl hwn, nid yw'r Pwyllgor yn teimlo y gall fynegi barn am sut y gallai cynnydd ym maint y Cynulliad ddylanwadu ar ei waith.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSafonau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddStandards@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

Yn gywir,



Jayne Bryant
**Cadeirydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
—
National Assembly for Wales
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

# Eitem 3.8

**CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 8**

Dawn Bowden AC
Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

28 Ionawr 2020

**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Annwyl Dawn

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 16 Rhagfyr 2019, yn gwahodd barn y Pwyllgor ar oblygiadau posibl i bwyllgorau'r Cynulliad pe bai unrhyw newid ym maint y Cynulliad.

Trafododd y Pwyllgor eich llythyr yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2020 a chytunodd y byddai'n fwy priodol i'r Aelodau hynny sydd â barn i ymateb i'ch cais yn unigol, neu drwy eu plaid wleidyddol.

Yn gywir



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
0300 200 6565

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
—
National Assembly for Wales
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

**CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 9**

Dawn Bowden AC
Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

29 Ionawr 2020

Annwyl Dawn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2019.

Yn gyntaf, hoffwn amlinellu rôl ein pwyllgor i osod y cyd-destun ar gyfer ein hymateb.

Mae Rheol Sefydlog 21 yn ei gwneud yn ofynnol inni graffu ar yr holl offerynnau statudol a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chyflwyno adroddiad arnynt. Yn ogystal, gall graffu ar is-ddeddfwriaeth arall, a chyflwyno adroddiad arno. Rydym hefyd yn craffu ar bob Bil a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a chyflwyno adroddiad arnynt, yn ogystal â Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Biliau'r DU, Memoranda Cydsyniad Offerynnau Statudol a Datganiadau Ysgrifenedig Rheol Sefydlog 30C. Rydym yn gwneud y gwaith hwn yn unol â'r terfynau amser a nodir yn y Rheolau Sefydlog a chan y Pwyllgor Busnes.

Mae ein cylch gwaith hefyd yn ymestyn i faterion cyfansoddiadol ehangach. Mae hefyd yn cynyddu i ymgymryd yn ffurfiol â materion cyfiawnder, mewn ymateb i rai o'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

Yn gyffredinol, rydym ni, a'n Pwyllgor blaenorol, wedi cynnwys nifer fach o Aelodau, sy'n golygu nad ydym, ac nad ydym wedi bod, yn gytbwys o ran y pleidiau. O ganlyniad, rydym yn draddodiadol wedi gweithio mewn ffordd amhleidiol ac mae hynny wedi dod yn un o gryfderau ein pwyllgor[1].

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod ein cwmpas i ymgymryd ag ymchwiliadau polisi o fewn ein cylch gwaith yn gyfyngedig oherwydd y dyletswyddau craffu deddfwriaethol ffurfiol, sy'n dibynnu ar amser, a roddir arnom gan y ddeddfwrfa a llif amrywiol y ddeddfwriaeth ei hun. Mae'r mater hwn wedi bod yn arbennig o berthnasol yn y Pumed

---

[1] Gweler y **Llythyr at y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes 24 Mai 2018** i gael rhagor o safbwyntiau ar faint y Pwyllgor

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
0300 200 6565

Cynulliad oherwydd bod llwyth gwaith y Pwyllgor wedi cynyddu o ganlyniad i graffu ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit a dod yn bwyllgor Cyfnod 1 ar gyfer dau o filiau'r Cynulliad. Gan edrych i'r dyfodol, nid yw'n glir eto sut y bydd ymadawiad y DU â'r UE yn effeithio ar natur a maint y ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd sydd i'w chraffu gan bwyllgor sydd â chyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 21.

Felly, er y gall cylch gwaith eang pwyllgor roi'r hyblygrwydd angenrheidiol i wneud gwaith ar faterion trawsbynciol, mae ein rhwymedigaethau craffu deddfwriaethol yn golygu po fwyaf eang y bydd ein cylch gwaith, yr anoddaf y bydd i ymgymryd ag ymchwiliadau mewn modd amserol ar draws yr ystod o gyfrifoldebau sydd gennym. Efallai y gall senedd fwy gyda mwy o Aelodau etholedig ganiatáu strwythur pwyllgorau gwahanol, a all, yn ei dro, ganiatáu i bynciau o fewn ein cylch gwaith presennol gael eu dyrannu i bwyllgorau mewn ffordd wahanol.

Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, credwn efallai yr hoffai'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ystyried adroddiad diweddar y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, sy'n gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i strwythurau presennol y Cynulliad.

Hefyd, hoffwn dynnu eich sylw at rai o'r canfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad ein Pwyllgor blaenorol, **Deddfu yng Nghymru**, ynghylch yr effaith y mae maint y Cynulliad Cenedlaethol yn ei chael ar graffu deddfwriaethol:

- roedd paragraffau 222 - 233 yn trafod gallu'r Cynulliad i ymgymryd â gwaith craffu deddfwriaethol yn gyffredinol;
- roedd paragraffau 330 - 337 yn trafod gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth gan bwyllgorau;
- roedd paragraffau 338 - 346 yn trafod gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol gan bwyllgorau.

Roedd pennod 8 yr adroddiad yn trafod strwythurau pwyllgorau'r Cynulliad (paragraffau 378-388) a phwysigrwydd data wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwella'r broses graffu. Felly, gall yr adrannau hyn fod o ddiddordeb hefyd.

At hynny, mae ein hadroddiad **Cyfnod 1 ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)** yn tynnu sylw at dystiolaeth a gawsom am faterion capasiti'r Cynulliad a gallai hyn fod yn berthnasol i'ch gwaith hefyd.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

**CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 10**

**Dawn Bowden AC**
Cadeirydd
Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

29 Ionawr 2020

Annwyl Dawn,

**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2019 yn gofyn am farn ar oblygiadau posibl unrhyw newid ym maint y Cynulliad i bwyllgorau'r Cynulliad. Trafododd y Pwyllgor hyn yn ei gyfarfod diweddar ac mae'r sylwadau a ganlyn yn adlewyrchu barn y mwyafrif ohonom:

- Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Aelodau yw bod maint presennol y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i lawer o Aelodau eistedd ar fwy nag un pwyllgor wythnosol. Teimlai'r Aelodau fod hyn yn effeithio ar eu gallu i baratoi ar gyfer pob cyfarfod mor drylwyr ag yr hoffent. Nododd yr Aelodau hefyd y cynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith yn ystod y deng mlynedd diwethaf, ac yn enwedig yn dilyn y cynnydd mewn pwerau deddfwriaethol.

- O ystyried ehangder y portffolio iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a chwaraeon, mae'n anochel y bu'n rhaid inni, ar adegau, wrthod ceisiadau gan Aelodau neu randdeiliaid i gynnal ymchwiliadau. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n teimlo bod capasiti a phwysau amser wedi cyfyngu ar eu gallu i wneud gwaith dilynol ar ymholiadau blaenorol yn enwedig, gan gynnwys gwaith deddfwriaethol.

- Yn olaf, trafododd yr Aelodau y toreth o Grwpiau Trawsbleidiol yn y Cynulliad hwn. Roedd barn mai ymdrech i wneud iawn am y ffaith na all pwyllgorau gwmpasu pob maes o'u portffolio yn fanwl oherwydd diffyg capasiti oedd hyn, yn rhannol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Gobeithio y bydd hyn o gymorth i'ch trafodaethau.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee



Dawn Bowden AC
Cadeirydd, Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

29 Ionawr 2020

Annwyl Dawn,

**Goblygiadau posibl i bwyllgorau yn sgil newid maint y Cynulliad**

Diolch i chi am eich **llythyr ar 16 Rhagfyr 2019** yn gofyn am farn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y goblygiadau posibl i bwyllgorau'r Cynulliad yn sgil unrhyw newid ym maint y Cynulliad. Fel aelod o'n Pwyllgor, rydych yn ymwybodol ein bod wedi trafod y mater hwn yn ystod ein **cyfarfod ar 16 Ionawr 2020**. At ddibenion y cofnod, rwy'n nodi nad ydych wedi cyfrannu at y safbwyntiau a fynegir yn y llythyr hwn o ystyried eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.

Ymhellach i'n trafodaethau, hoffem dynnu sylw at y pwyntiau canlynol mewn ymateb i'r cwestiynau y gwnaethoch eu gofyn:

- **Y cynnydd ym mhwerau'r Cynulliad**

Er y cynnydd sylweddol ym mhwerau deddfwriaethol ac ariannol y Cynulliad dros yr 20 mlynedd diwethaf, ni chafwyd cynnydd cyfatebol yn nifer Aelodau'r Cynulliad. Credwn fod hyn wedi ein gadael yn brin o ran ein capasiti i ddwyn y llywodraeth i gyfrif, yn enwedig ar ôl tynnu nifer y deiliaid swyddi (e.e. Gweinidogion Cymru/Llywyddion) o gyfanswm nifer yr ACau sydd ar gael i gymryd rhan mewn pwyllgorau.

Gyda chyflwyno rhagor o bwerau deddfwriaethol a phwerau cyllidol yn ddiweddar, mae ein cyfrifoldebau fel pwyllgorau wedi cynyddu'n unol â hynny. Serch hynny, mae aelodaeth ein Pwyllgorau yn llai nag erioed. Er nad ydym o anghenraid yn credu bod cysylltiad rhwng maint pwyllgor a'i effeithiolrwydd, mae ein haelodaeth bresennol o chwech—ochr yn ochr â'r heriau pellach y sonnir amdanynt ar y dudalen nesaf—wir yn ymestyn ein hadnoddau wrth inni geisio gwneud cyfiawnder â'r meysydd sydd o fewn ein cylch gwaith wrth gyflawni ein cyfrifoldebau ehangach fel ACau.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

- **Aelodaeth o fwy nag un Pwyllgor**

Mae holl aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg naill ai'n eistedd ar o leiaf un Pwyllgor Cynulliad arall, neu'n cadeirio Pwyllgor arall. Mae hyn yn wahanol i nifer o ddeddfwrfeydd eraill, lle mae disgwyl i seneddwyr eistedd ar ddim mwy nag un Pwyllgor.

Gan ein bod yn aelodau o fwy nag un pwyllgor, mae hyn yn cyfyngu ar ein amser a'n capasiti i ddatblygu gwybodaeth arbenigol a manwl o'n meysydd gwaith. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, gall hyn arwain at graffu mwy arwynebol nag y byddem fel arall yn gobeithio ei wneud, a gall amharu ar ein gallu i fynd ar drywydd meysydd penodol o arbenigedd.

O fod yn aelodau o fwy nag un pwyllgor, gall hyn hefyd arwain at ddibynnu mwy ar gefnogaeth a ddarperir gan staff cymorth y Comisiwn a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, oherwydd y diffyg amser i ni wneud ein gwaith paratoi a/neu ddilynol ein hunain. Fodd bynnag, pe bai'r Cynulliad yn penderfynu cynyddu ei faint yn y pen draw, byddem yn pwysleisio'r angen i ofalu rhag:

- defnyddio gormod ar y capasiti ychwanegol hwnnw trwy orlenwi rhaglenni gwaith;
- unrhyw gynnydd yn arbenigedd Aelodau gan greu awydd na ellir ei fodloni i gael rhagor o wybodaeth a chefnogaeth gan eraill.

- **Capasiti pwyllgorau i gwmpasu pob maes yn ein cylch gwaith**

O fewn cyfyngiad maint presennol y Cynulliad, er mwyn gallu dwyn y llywodraeth i gyfrif ar draws yr holl feysydd a swyddogaethau y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt, mae gan sawl pwyllgor gylch gwaith ehangach na phwyllgorau cyfatebol mewn seneddau eraill. Rydym yn gwbl grediniol bod rôl bwysig i gael pwyllgor sy'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc, ond mae ehangder y meysydd yr ydym yn gyfrifol am graffu arnynt yn cyflwyno heriau'n rheolaidd.

Cynigir inni fynd ar drywydd syniadau ar gyfer ymchwiliadau a darnau pwysig o waith yn gyson. Er ein bod yn cydnabod bod y galw bob amser yn debygol o ymestyn ein capasiti, yn ystod y Cynulliad hwn, bu nifer o feysydd y byddem wedi hoffi mynd ar eu trywydd pe bai mwy o amser a chapasiti gennym i wneud ein gwaith pwyllgor ochr yn ochr â'n cyfrifoldebau ehangach fel Aelodau'r Cynulliad.

At hynny, er ein bod yn cydnabod y buddion gwerthfawr iawn a all fod ynghlwm wrth y model cyfredol o gyfrifoldeb deuol am graffu deddfwriaethol a chraffu ar bolisi o ran defnyddio gwybodaeth am bynciau penodol, mae cydbwyso'r ddau yn her sylweddol. Gydag amserlenni deddfwriaethol yn aml yn anrhagweladwy ar y naill law, ond ar y llaw arall yn ddarostyngedig i derfynau amser cadarn sydd y tu hwnt i reolaeth y Pwyllgor, gall atgyfeirio Bil at ddibenion craffu amharu'n sylweddol ar ein rhaglen waith ehangach.

Er ei bod yn bosibl mai symptom o'n model pwyllgorau yw hyn yn hytrach na'n maint, gyda llai na 45 o Aelodau ar gael i eistedd ar bwyllgorau sy'n cwmpasu'r fath amrywiaeth o feysydd a chyfrifoldebau, credwn y byddwn yn wynebu'r un her o ran ein capasiti yn y pen draw - waeth beth fo'r system bwyllgorau a fabwysiadwn.


- **Capasiti i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystyrlon**

Dylai ymgysylltu â'r cyhoedd fod yn rhan allweddol o'n gwaith fel pwyllgorau, ac fel Aelodau Cynulliad unigol. Er ein bod yn ymdrechu i fabwysiadu dulliau arloesol i wneud y mwyaf o'n gallu i ymgysylltu â phobl Cymru, credwn fod cyswllt wyneb yn wyneb yn aml yn angenrheidiol. Credwn fod ein maint, ar brydiau, wedi rhwystro ein gallu i ledaenu'r gwaith hwn rhyngom, ac i deithio i bob cwr o Gymru i ofyn i'n dinasyddion gyfrannu at waith ein pwyllgor.

- **Y cydbwysedd cymharol rhwng y cyfarfod llawn ac amser pwyllgorau**

Rydym yn cydnabod hyd yn oed os penderfynir cynyddu maint y Cynulliad, mae'n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau yn dod i rym yn ystod y Cynulliad nesaf. O'r herwydd, credwn y dylid ystyried rhaniad amser ffurfiol y Cynulliad rhwng y cyfarfod llawn a busnes pwyllgorau er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r 60 Aelod Cynulliad sydd gennym.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills Committee



Dawn Bowden AC
Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

29 Ionawr 2020

Annwyl Dawn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ynghylch y goblygiadau posibl i bwyllgorau'r Cynulliad yn sgil unrhyw newid ym maint y Cynulliad. Trafodwyd y llythyr hwn ar 23 Ionawr. Roedd barn yr Aelodau ar y pwnc yn amrywio ac ni ddaeth y Pwyllgor i safbwynt sefydlog. Ymhlith rhai o'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau yn y drafodaeth roedd y canlynol:

- Mae'r mater hwn yn fwy priodol i Aelodau Cynulliad unigol neu grwpiau gwleidyddol ymateb iddo
- Gall y llwyth gwaith fod yn anodd ac nid oes modd ei gymharu â sefydliadau tebyg eraill; nid oes gan bwyllgorau'r Cynulliad ddigon o bwerau
- Gall bod ar fwy nag un neu ddau o bwyllgorau fod yn heriol
- Mae'n anodd arbenigo
- Gyda phwyllgorau llai, mae'n anodd iawn ymgymryd â gwaith is-bwyllgor neu rapporteur

Fel y soniwyd uchod, roedd y safbwyntiau'n amrywio rhwng yr Aelodau. Mae'r pwyntiau hyn yn gofnod o'r drafodaeth a gafwyd yn hytrach na barn Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ei gyfanrwydd.

Yn gywir,

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

CAER(5)-4-20 Papur i'w nodi 13

Dawn Bowden AC
Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Ein cyf: PO784/EJ/TJ

27 Ionawr 2020

Annwyl Dawn,

Diolch am eich llythyr ar 10 Rhagfyr 2019 ac am y cyfle i ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 2 Rhagfyr.

Yn eich llythyr, rydych chi'n gofyn am ragor o wybodaeth mewn nifer o feysydd mewn perthynas â chapasiti'r Cynulliad. Rwyf wedi cynnwys yr wybodaeth berthnasol isod.

Yn ogystal, yn ystod y sesiwn dystiolaeth, eglurais beth oedd nifer yr Aelodau sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu gan bwyllgorau, a faint sy'n eistedd ar un, dau a thri phwyllgor. Rwyf wedi darparu rhagor o wybodaeth yn Atodiad A am y rolau a gyflawnir gan Aelodau a'u rhan yng ngwaith y pwyllgorau.

**Enghreifftiau o ddeddfwrfeydd datganoledig sydd â threfniadau gweithio ar y cyd ag aelodau etholedig cyrff eraill**

Fel yr amlinellais yn ystod fy sesiwn dystiolaeth, mae gan y Cynulliad ei hun nifer o drefniadau ar waith ar gyfer cydweithredu ag aelodau etholedig cyrff eraill. Er enghraifft, mae Rheol Sefydlog 17.54 yn caniatáu i bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol gyfarfod yr un pryd ag unrhyw bwyllgor neu gyd-bwyllgor o unrhyw ddeddfwrfa yn y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd, mae gweithdrefnau ar waith i alluogi llif llyfn o wybodaeth rhwng y Cynulliad a Senedd y Deyrnas Unedig mewn perthynas â Gorchmynion Adran 109, Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, ac ati.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales



Un o'r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn ystod fy sesiwn dystiolaeth oedd a oeddwn i'n ymwybodol o unrhyw enghraifft lle'r oedd trefniadau ar waith i Aelod feddu ar 'swyddogaeth gyfun' yn fwriadol rhwng deddfwrfeydd (yn hytrach na bod gan Aelod fandad deuol fel Aelod o ddau gorff seneddol). Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn cadw gwybodaeth ar y mater hwn, ac nid yw wedi cynnal ymchwil i'r mater hwn. Rwyf o'r farn ei bod yn hanfodol bod yr etholwyr yn glir pan fyddant yn arfer eu pleidlais pa gyfrifoldebau fydd gan eu cynrychiolydd fel rhan o'r sefydliad maent yn cael ei ethol iddo, ac y dylai'r etholwyr eu dwyn i gyfrif.

Byddai model o Aelodau sy'n gweithredu o dan 'swyddogaeth gyfun' rhwng deddfwrfeydd o bosibl yn creu cymhlethdodau o ran y trefniadau atebolrwydd ar gyfer penderfyniadau Aelodau o'r fath, ac yn cyfathrebu rhain yn glir i etholwyr yr Aelodau. Gallai hefyd gyflwyno heriau wrth gyfathrebu rolau a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau, os yw Aelodau penodol yn gwasanaethu'r naill a'r llall yn fwriadol. Gallai hefyd greu'r un potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau ag y ceisiodd Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) fynd i'r afael ag ef. Rwy'n dal o'r farn ei bod yn hanfodol bod y rhai sy'n dal Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn llunio'r gyfraith yng Nghymru yn cael eu hethol yn uniongyrchol i'r senedd hon, ac yn atebol am eu rôl i'r bobl maent yn eu gwasanaethu.

**Hyd yr amseroedd eistedd llawn a nifer yr wythnosau eistedd**

Wrth i gyfrifoldebau'r Cynulliad ddatblygu, mae hyd amseroedd eistedd cyfarfodydd llawn wedi cynyddu. Ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad yn 2007, roedd hyd cyfartalog amseroedd eistedd cyfarfodydd llawn ychydig yn llai na 4 awr (3 awr a 55 munud).

Erbyn ail hanner y Pumed Cynulliad, roedd hyd cyfartalog yr amseroedd eistedd llawn wedi cynyddu i bron i 5 awr (4 awr a 58 munud ar gyfartaledd yn 2018).

Rhagwelir y bydd hyd yr amseroedd eistedd llawn yn parhau i gynyddu yn y dyfodol.

Dros yr un cyfnod amser, mae nifer yr wythnosau eistedd wedi cynyddu. Ym mis Gorffennaf 2013, cytunodd Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad i gynyddu nifer yr wythnosau eistedd o 34 i 35 wythnos (drwy wneud toriad yr haf wythnos yn fyrrach).

Ym mis Gorffennaf 2016, cynyddodd Pwyllgor Busnes y Pumed Cynulliad nifer yr wythnosau eistedd ymhellach i'r lefel gyfredol o 36 wythnos (drwy wneud toriad y Nadolig wythnos yn llai).

Ers hynny, nid yw'r Pwyllgor Busnes wedi trafod cynnydd ehangach i amseroedd eistedd nac wythnosau'r Cynulliad, er bod y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ei hun yn enghraifft o'r Pwyllgor Busnes yn cytuno y caiff y pwyllgor gyfarfod y tu allan i'r amserlen arferol.

O ran cynyddu amseroedd eistedd y Cynulliad neu ymestyn y diwrnod busnes, byddai gan hyn oblygiadau i ymrwymiad y Cynulliad i oriau ystyriol o deuluoedd, sydd hefyd yn ofyniad yn y Rheolau Sefydlog. Mae Rheol Sefydlog 11.10 yn ei gwneud yn ofynnol i amserlen y Cynulliad ystyried teulu a chyfrifoldebau etholaethol neu ranbarthol yr Aelodau. Dylid nodi bod y cysyniad o oriau ystyriol o deuluoedd yn achosi goblygiadau amrywiol ar wahanol Aelodau, gan adlewyrchu’r ffaith y bydd lleoliadau daearyddol yr etholaethau a’r rhanbarthau yn cael effaith ar strwythur eu hwythnosau busnes. Er bod yr ystadegau ar hyd sesiynau llawn yn dangos bod tuedd eisoes tuag at oriau hirach, a chynyddu hyblygrwydd, byddai unrhyw newid pellach yn sicr yn peri i rywun holi a yw Rheol Sefydlog 11.10 yn parhau i fod yn ddilys.

Byddai rhoi'r gorau i'r ymrwymiad i oriau ystyriol o deuluoedd hefyd yn effeithio ar atyniad y rôl i ddarpar ymgeiswyr, a thrwy hynny o bosibl yn arwain at Gynulliad llai amrywiol. Yn ogystal, gellid cwestiynu sut byddai oriau hwyrach yn effeithio ar ansawdd y craffu a ddarperir, gan y byddai’n lleihau'r amser sydd ar gael i'r Aelodau baratoi ar gyfer dwyn Gweinidogion i gyfrif.

O ran ymestyn wythnosau eistedd y Cynulliad, gellir nodi ein bod ni’n barod yn gweithredu yn unol â Seneddau eraill y Deyrnas Unedig yn hyn o beth, ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn modd ystyriol o deuluoedd lle bynnag y bo modd (mae Rheol Sefydlog 11.10 hefyd yn berthnasol i bennu dyddiadau toriad).

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales



Gellir nodi hefyd bod Aelodau yn dibynnu'n fawr ar gyfnodau toriad i gyflawni llawer o agweddau pwysig ar eu rolau, a bod cynyddu nifer yr wythnosau eistedd o reidrwydd yn golygu lleihau nifer yr wythnosau o doriad.

Gellid cyflwyno dadl y gellid caniatáu i bwyllgorau'r Cynulliad gwrdd ar yr un pryd â sesiynau llawn. Fodd bynnag, mae maint bach y Cynulliad yn golygu bod gan y mwyafrif o Aelodau rolau allweddol mewn sesiynau llawn fel rheol, a gallai hyn arwain at darfu'n fawr ar fusnes pwyllgorau a chyfarfodydd llawn pan na fyddai'r Aelodau'n bresennol.

**Costau sy'n gysylltiedig â chynyddu maint y Cynulliad**

Ystyriodd y Panel Arbenigol gynnydd yn nifer yr Aelodau i naill ai 80 neu 90 Aelod. Cyhoeddodd y Comisiwn gostau amcangyfrifedig cyntaf cynnydd yn nifer yr Aelodau ym mis Ionawr 2015. Darparodd gostau wedi eu diweddaru ar gyfer y Panel yn 2017. Ers i'r Panel adrodd, mae swyddogion Comisiwn y Cynulliad wedi cynnal asesiad pellach o'r costau hyn, ac rwyf yn eu cynnwys yn Atodiad B. Mae hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch: costau trosiannol, costau blynyddol parhaus ar gyfer blwyddyn nodweddiadol lle na cheir etholiad a blwyddyn nodweddiadol lle ceir etholiad, rhagdybiaethau, a manylion ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am benderfyniadau penodol.

Mater i Gomisiynau'r Cynulliad, Pwyllgorau Busnes a Byrddau Taliadau y dyfodol fydd ystyried llawer o'r penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chynnydd posibl yn nifer yr Aelodau. O'r herwydd, mae'r costau a ddarperir yn Atodiad B yn cynnwys amcangyfrifon is ac uwch, i adlewyrchu nad oes modd gwybod beth fydd penderfyniadau polisi cyrff o'r fath yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y Panel Arbenigol wedi argymell bod y Cynulliad yn arfer pwyll o ran sut mae'n defnyddio unrhyw gynnydd ym maint y sefydliad, er mwyn sicrhau bod y buddion posibl o ran ansawdd a swm y gwaith craffu yn cael eu gwireddu, a bod costau ychwanegol yn cael eu cadw mor isel â phosibl. Yn yr un modd, rhagwelir na fydd gwasanaethau hanfodol eraill a ddarperir (er enghraifft, diogelwch) yn cael eu peryglu.

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales



Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir

Elin Jones AC

Y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales



**Atodiad A: Dosbarthiad rolau ymhlith 60 Aelod y Cynulliad**

At ddibenion darparu ystadegau ar nifer y pwyllgorau mae'r Aelodau'n eistedd arnynt, nid yw Pwyllgor y Cynulliad Cyfan (y mae pob Aelod yn eistedd arno), y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor ar gyfer Craffu ar y Prif Weinidog (sy'n cyfarfod bob tymor) wedi eu cynnwys yn yr ystadegau a ganlyn.

Mae'r ystadegau hefyd yn cyfeirio at aelodau parhaol pwyllgorau yn unig, ac nid aelodau dirprwyol.

Ar 22 Ionawr 2020:

- Nid yw 18 aelod yn eistedd ar bwyllgor ar hyn o bryd (mae hyn yn cynnwys Gweinidogion, y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Arweinydd yr Wrthblaid, a Rheolwr Busnes Grŵp Ceidwadwyr Cymru);
- Mae 14 Aelod yn eistedd ar un pwyllgor;
- Mae 25 aelod yn eistedd ar ddau bwyllgor; ac
- Mae tri Aelod yn eistedd ar dri phwyllgor.

**Atodiad B – Amcangyfrifon costau, Ionawr 2020**

Mae'r wybodaeth a ganlyn yn crynhoi'r costau amcangyfrifedig ar gyfer cynnydd yn nifer yr Aelodau i naill ai 80 neu 90 Aelod, yn 2026, yn seiliedig ar nifer o senarios a thybiaethau fel y nodir isod.

Gellir nodi bod modelu ariannol o'r fath yn dal i fod yn 'waith sy'n datblygu' ac nad yw Comisiwn y Cynulliad wedi profi i ba raddau y byddai modelau penodol yn dderbyniol i'r Aelodau.

***Rhagdybiaethau a wneir yn y broses o amcangyfrif costau***

Yn achos cynnydd i **80 Aelod**, tybir y byddai'r Aelodau'n cael eu hethol ar sail yr etholaethau a'r rhanbarthau etholiadol cyfredol. Tybir y byddai'r Aelodau hynny'n perthyn i bum grŵp gwleidyddol, ac at ddibenion penderfyniad y Bwrdd Taliadau, byddent yn byw yn yr ardaloedd mewnol, allanol a chanolradd a ddiffinnir ar hyn o bryd.

Yn achos cynnydd i **90 Aelod**, tybir y byddai'r Aelodau'n cael eu hethol ar sail 20 etholaeth yn seiliedig ar baru etholaethau cyfredol. Tybir y byddai'r Aelodau hynny'n perthyn i bum grŵp gwleidyddol. Tybir y byddai'r etholaethau'n cael eu dyrannu i'r ardaloedd mewnol, canolradd ac allanol (fel y'u diffinnir ar hyn o bryd ym Mhenderfyniad y Bwrdd Taliadau) ar sail dynodiad cyfredol yr etholaethau pâr.

Ar gyfer cynnydd i 80 a 90 Aelod, gofynnwyd am amcangyfrifon uwch ac is.

**Mae'r amcangyfrifon is yn seiliedig ar ddim cynnydd yng ngweithgareddau busnes cyfredol y Cynulliad.**

**Mae'r amcangyfrifon uwch yn seiliedig ar gynnydd tybiedig mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes a fyddai'n cynnwys:**

- cyfarfod llawn ychwanegol bob wythnos;
- pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol;
- cynnydd cyfrannol yn nifer y pleidleisiau ar gyfer Biliau Aelodau.

Yn y ddau senario, tybir na fyddai unrhyw newid yn nifer cyfredol yr wythnosau eistedd.

Amcangyfrifwyd lwfansau aelodau ar sail Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2018-19. Lle bo hynny'n berthnasol, amcangyfrifwyd y nifer sy'n cymryd lwfansau ar sail y nifer sydd wedi eu cymryd mewn blynyddoedd blaenorol.

Tybiwyd y byddai swyddfeydd ychwanegol o ganlyniad i ragor o Aelodau yn cael eu darparu ym Mae Caerdydd. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar rentu swyddfa ychwanegol i gartrefu staff y Comisiwn a symudwyd o Dŷ Hywel i wneud lle i Aelodau ychwanegol.

Mae'r amcangyfrifon cost yn crynhoi'r gofyniad arian parod ychwanegol ar Gronfa Gyfunol Cymru. Gall gwir ofyniad cyllideb Comisiwn y Cynulliad amrywio'n sylweddol oherwydd effaith Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 - Prydlesi, a ddaw i rym yn 2020-21.

Nodwyd cynnydd mewn gwariant heblaw arian parod sy'n cyfateb i oddeutu £0.5 miliwn y flwyddyn. Mae enghreifftiau o wariant heblaw arian parod y mae cynyddu maint y Cynulliad yn effeithio arno yn cynnwys straen ychwanegol ar wasanaeth pensiwn Aelodau Cynulliad a dibrisiant asedau sefydlog.

Mae'r holl amcangyfrifon o ran costau yn seiliedig ar y gwerthoedd cyfredol ac yn net o TAW. Mae amcangyfrifon o gostau staff Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys 'argostau', ac maent yn seiliedig ar bwynt uchaf y raddfa ar gyfer pob gradd.

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales





***Gwneud penderfyniadau***

Yn dilyn unrhyw benderfyniad y gall y Cynulliad ei wneud i gynyddu nifer yr Aelodau, bydd gan nifer o wahanol benderfynwyr rôl wrth bennu goblygiadau cost, i wahanol amserlenni, yn dibynnu ar natur y penderfyniad.

Yna bydd y Cynulliad, drwy'r broses gyllidebol flynyddol, yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw gynnydd sy'n ofynnol i gyllideb Comisiwn y Cynulliad i gyllido'r costau cysylltiedig.

Prif gyrff gwneud penderfyniadau'r Cynulliad yw:

1. Y Pwyllgor Busnes. Hyd yn hyn, mae trefniadaeth gychwynnol busnes y Cynulliad (h.y. ei strwythurau pwyllgor, ei hamserlen, ac ati) wedi cael ei phennu ar ddechrau pob Cynulliad newydd, gan Bwyllgor Busnes sydd newydd ei gyfansoddi. Cwestiwn posibl i Bwyllgor Busnes yn y dyfodol, cyn cynnydd yn nifer yr Aelodau yn y Cynulliad, yw a ddylid cynnal yr arfer hwn, ynteu a fyddai'n werth i'r Pwyllgor Busnes sy'n gadael (yn 2026) ystyried y goblygiadau ar gyfer trefnu busnes a phwyllgorau ar ddechrau'r Cynulliad nesaf, er mwyn hwyluso penderfyniadau y byddai angen i eraill eu gwneud, fel Comisiwn y Cynulliad a'r Bwrdd Taliadau. Fodd bynnag, ni allai unrhyw gynnig o'r fath fod yn rhwymol ar Bwyllgor Busnes olynol.

2. Comisiwn y Cynulliad: Prif gyfrifoldeb statudol Comisiwn y Cynulliad yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflawni gwaith y Cynulliad. Mae natur y gwasanaethau, a'r staff cysylltiedig, sy'n ofynnol i alluogi'r Cynulliad i gyflawni ei waith yn gwestiwn i'r Comisiwn ei benderfynu a'i adolygu yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol a gofynion busnes.

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales





Tybir y byddai angen gwneud rhai penderfyniadau cyn yr etholiad perthnasol - penderfyniadau ar lety, er enghraifft.

Trefn arferol Comisiwn y Cynulliad fyddai gwneud penderfyniadau ar siâp ei wasanaethau i Aelodau ar ôl i'r Pwyllgor Busnes benderfynu ar drefn strwythurau busnes a phwyllgorau ar ddechrau Cynulliad (yn ymarferol, y Prif Weithredwr a'r Clerc/Bwrdd Gweithredol sy'n gwneud y penderfyniadau hyn).

Wrth baratoi ei amcangyfrifon costau staffio ac adnoddau ei hun ar gyfer dechrau Cynulliad newydd, mae Comisiwn y Cynulliad yn seilio ei amcangyfrifon ar arfer hysbys yn hytrach na dyfalu ynghylch yr hyn a allai godi (h.y. mae'r Comisiwn yn rhagdybio y bydd trefniadaeth strwythurau busnes a phwyllgorau un Cynulliad yn adlewyrchu rhai Cynulliad blaenorol, oni bai bod unrhyw reswm hysbys pam na all hyn fod yn wir). Yn y lle cyntaf, ceisir talu am unrhyw gynnydd mewn gweithgareddau (er enghraifft, nifer y pwyllgorau) o'r cyllidebau a'r adnoddau presennol (gan ddefnyddio arbedion neu effeithlonrwydd lle maent yn bosibl). Dim ond os nad yw'n bosibl mynd i'r afael â rhagor o weithgareddau drwy'r cyllidebau a'r adnoddau presennol y byddai Comisiwn y Cynulliad yn gofyn am gynnydd i'w gyllideb. Mae'r arfer hwn yn gyson ag egwyddorion rheolaeth ariannol effeithiol ac yn unol â'r Datganiad Egwyddorion mae'r Pwyllgor Cyllid yn disgwyl i Gyrff a Gyllidir yn Uniongyrchol roi sylw iddynt wrth wneud cynigion cyllidebol.

3. Y Bwrdd Taliadau. O dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, mae'r Bwrdd Taliadau yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar dâl Aelodau a Staff Cymorth Aelodau (tâl a phensiynau); a lwfansau ar gyfer ad-dalu costau'r Aelodau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau fel Aelod Cynulliad (er enghraifft, costau swyddfa, lwfansau ar gyfer cyflogi eu staff eu hunain a lwfans cymorth pleidiau gwleidyddol).

*Costau dibynnol ar bolisi (dewisol) a sefydlog*

Mae rhai gofynion costau sefydlog y gellir eu nodi'n weddol bendant ar gyfer gwahanol niferoedd o Aelodau, ac nad ydynt, ar y cyfan, yn dibynnu'n uniongyrchol ar ofynion busnes ffurfiol y Cynulliad. Er enghraifft, mae costau cyflenwi offer TGCh, trwyddedau meddalwedd a rhentu llinell band eang i Aelodau ychwanegol (£321,000 ar gyfer 30 Aelod ychwanegol) yn cael eu hystyried yn gostau sefydlog.

Mae costau eraill sy'n dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Bwrdd Taliadau. Yn benodol, mae lefel yr adnoddau staffio sydd ar gael i Aelodau yn unol â disgresiwn y Bwrdd Taliadau, ac mae’n bosibl na fydd y rhaid talu’r holl gostau ychwanegol posibl yn hyn o beth (£3.29 miliwn ar gyfer 30 Aelod ychwanegol, yn seiliedig ar gynnal y lefelau staffio cyfredol ar gyfer Aelodau unigol).

Mae rhai costau, fel costau llety newydd, yn cael eu trin yn y tablau sy'n dilyn fel rhai 'sefydlog', ond a allai, yn ddamcaniaethol, ddod yn rhai 'dewisol.' Yn yr holl dablau isod, tybir na fydd y swyddfa yn Nhŷ Hywel yn gallu darparu ar gyfer y niferoedd a ragwelir o Aelodau a staff cymorth Aelodau ychwanegol, ac y bydd staff y Comisiwn angen lle swyddfa os bydd mwy o Aelodau yn cael eu hethol i'r Cynulliad. Er enghraifft, rhagdybir cost drosiannol o £1.74 miliwn (adnewyddu swyddfeydd) a chost barhaus o £790,000 (rhentu swyddfeydd) yn y ffigurau ar gyfer Cynulliad o 90 Aelod. Fodd bynnag, gallai Comisiwn yn y dyfodol benderfynu nad oes angen symud staff o Dŷ Hywel i wneud lle i Aelodau ychwanegol.

Gellid ystyried costau eraill fel rhai ‘ar sail disgresiwn’, yn yr ystyr y byddant yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau polisi a wneir gan y Cynulliad, y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Cynulliad yn y dyfodol ynghylch arferion gwaith, blaenoriaethau a threfniadaeth busnes ffurfiol y Cynulliad. Yn benodol, nid yw costau staffio Comisiwn y Cynulliad yn sefydlog, a byddent yn adlewyrchu'r penderfyniadau mae Comisiwn

yn eu gwneud ynghylch natur y gwasanaethau i'w darparu i Gynulliad mwy i ategu anghenion busnes a blaenoriaethau buddsoddi'r Comisiwn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, argymhellodd y Panel Arbenigol y dylai'r Cynulliad fod yn bwyllog o ran sut mae'n defnyddio unrhyw gynnydd ym maint y sefydliad, er mwyn sicrhau bod y buddion posibl o ran ansawdd a maint y craffu yn cael eu gwireddu, a bod costau ychwanegol yn cael eu cadw mor isel â phosibl. Yn yr un modd, rhagwelir na fydd gwasanaethau hanfodol eraill a ddarperir (er enghraifft, diogelwch) yn cael eu cyfaddawdu.

Gellir nodi hefyd y bydd yr amserlenni ar gyfer pasio unrhyw ddeddfwriaeth i gynyddu nifer yr Aelodau yn dylanwadu ar rai costau. Fel egwyddor eang, byddai rhagor o amser i baratoi ar gyfer goblygiadau deddfwriaeth hysbys yn galluogi'r Cynulliad i fanteisio'n well ar amrywiol gyfleoedd y byddai newid mawr o'r fath yn eu cynnig, ac yn sicrhau buddion ariannol a gweithredu perthnasol. Er enghraifft, gallai newidiadau corfforol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion Cynulliad mwy gael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnodau toriad a diddymiad pe bai rhybudd digonol yn cael ei roi, a thrwy hynny leihau'r aflonyddwch i Aelodau a busnes y Cynulliad.

*Costau parhaus a throsiannol*

Tybir bod rhai costau yn gostau trosiannol unwaith ac am byth, a thybir bod rhai yn gostau parhaus (gyda'r costau parhaus yn codi yn y blynyddoedd y cynhelir etholiadau).

Daw'r costau parhaus i rym ar wahanol adegau. Tybir y bydd rhai costau parhaus (e.e. prosesau sy'n gysylltiedig â chaffael llety ychwanegol) yn cychwyn mor gynnar â 2024-2025, ond tybir na fydd eraill yn dod i rym tan 2031-32.

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales





Am y rheswm hwn, ar gyfer pob senario, rwyf wedi darparu dau dabl amcangyfrif costau.

Mae'r tabl cyntaf yn dangos y goblygiadau cost 'hirdymor', pan fydd yr holl gostau parhaus wedi dod i rym, h.y. y costau trosiannol, costau parhaus blynyddoedd pan na chynhelir etholiad (o 2027-2028) a chostau parhaus blynyddoedd pan gynhelir etholiad (o 2031 -32).

Mae'r ail dabl yn dangos y costau parhaus ar draws nifer o flynyddoedd ariannol yn arwain at 2031-32, fel y gellir gweld yn haws pa bryd y byddai gwahanol gostau parhaus yn dod i rym.

Mae tabl 'crynodeb' terfynol wedi ei gynnwys ar ddiwedd yr atodiad.

***Tabl 1a – Amcangyfrifon o gostau trosiannol a pharhaus ychwanegol Cynulliad o 80 Aelod, heb unrhyw gynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad, gyda chostau parhaus ar gyfer blynyddoedd nodweddiadol o 2031-32 ymlaen***

| | Trosiannol (£000) | Parhaus – blwyddyn nodweddiadol heb etholiad (o 2027-28) (£000) | Parhaus – blwyddyn nodweddiadol ag etholiad (o 2031-32) (£000) |
|---|---|---|---|
| Costau staff Comisiwn y Cynulliad | 708 | 1,607 | 1,672 |
| Costau eraill Comisiwn y Cynulliad (gan gynnwys | 1,647[i] | 889 | 942 |

[i] Mae £50,000 ohono'n wariant cyfalaf

| | | | |
|---|---|---|---|
| adnewyddu llety ychwanegol, rhentu llety ychwanegol, a chostau cysylltiedig eraill) | | | |
| Cyflogau Aelodau Cynulliad (gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi – e.e. lwfans Cadeirydd Pwyllgor) | – | 1,770 | 1,623 |
| Cyflogau staff cymorth Aelodau | – | 2,393 | 2,393 |
| Lwfansau a chostau swyddfa aelodau[ii] | – | 885 | 922 |
| Darpariaethau ar gyfer swyddi gwag staff cymorth Aelodau Cynulliad | – | 138 | 138 |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau | – | 420 | 1,183 |
| **Cyfanswm** | **2355** | **7826** | **8596** |



[ii] Yn cynnwys Gwariant Llety Preswyl; Costau Teithio Aelodau; Costau swyddfa; a chymorth i bleidiau gwleidyddol

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales





*Tabl 1b – Amcangyfrifon o gostau parhaus ychwanegol Cynulliad o 80 Aelod, heb unrhyw gynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad, mewn blynyddoedd yn arwain at 2031–32*

| | Parhaus – 2024-25 (£000) | Parhaus – 2025-26 (£000) | Parhaus – 2026-27 (blwyddyn etholiad) (£000) | Parhaus – 2027-28, 2028-29, 2029-30, 2030-31 (£000) | Parhaus – 2031-32 (blwyddyn etholiad) (£000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff Comisiwn y Cynulliad | 122 | 518 | 1,672 | 1,607 | 1,672 |
| Costau eraill Comisiwn y Cynulliad | 10 | 543 | 942 | 889 | 942 |
| Cyflogau Aelodau Cynulliad (Gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi) | – | – | 1,623 | 1,770 | 1,623 |
| Cyflogau staff cymorth Aelodau | | | 2,194 | 2,393 | 2,393 |
| Lwfansau a chostau swyddfa Aelodau[iii] | | | 980 | 885 | 922 |
| Darpariaethau ar gyfer | – | – | 127 | 138 | 138 |

---

[iii] Yn cynnwys Gwariant ar Lety Preswyl; Costau teithio Aelodau; Costau swyddfa; a chymorth i bleidiau gwleidyddol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| swyddi gwag staff cymorth Aelodau Cynulliad | | | | | |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau | – | – | 516 | 420 | 1,183 |
| **Cyfanswm** | **132** | **1,061** | **7,781** | **7,826** | **8,596** |

Mae costau parhaus 2031-32 yn cynnwys (yn hytrach nag yn ychwanegol at) gostau parhaus ar gyfer 2026-27.
Mae costau parhaus ar gyfer 2027-28, 2028-29, 2029-30 a 2030-31 yn cynnwys (yn hytrach nag yn ychwanegol at) gostau parhaus ar gyfer 2024-25 a 2025-26.

*Tabl 2a – Amcangyfrifon o gostau trosiannol a pharhaus ychwanegol Cynulliad o 80 Aelod, gyda chynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad (h.y. cyfarfod llawn ychwanegol bob wythnos, pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol; a chynnydd cyfrannol yn nifer y pleidleisiau ar gyfer Biliau Aelodau), gyda chostau parhaus ar gyfer blynyddoedd nodweddiadol o 2031-32 ymlaen*

| | Trosiannol (£000) | Parhaus – blwyddyn nodweddiadol heb etholiad (£000) | Parhaus – blwyddyn nodweddiadol ag etholiad (£000) |
|---|---|---|---|
| Costau staff Comisiwn y Cynulliad | 708 | 2,576 | 2,576 |
| Costau eraill Comisiwn y Cynulliad (gan gynnwys adnewyddu llety ychwanegol, rhentu llety ychwanegol, a chostau cysylltiedig eraill) | 1,669[iv] | 1,100 | 1,150 |
| Cyflogau Aelodau Cynulliad (gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi) | – | 1,788 | 1,640 |
| Cyflogau staff cymorth Aelodau | – | 2,393 | 2,393 |
| Lwfansau a chostau swyddfa Aelodau[v] | – | 885 | 922 |

[iv] Mae £50,000 ohono'n wariant cyfalaf
[v] Yn cynnwys Gwariant ar Lety Preswyl; Costau teithio Aelodau; Costau swyddfa; a chymorth i bleidiau gwleidyddol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau ar gyfer swyddi gwag staff cymorth Aelodau Cynulliad | – | 138 | 138 |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau | – | 424 | 1,188 |
| **Cyfanswm** | 2,377 | 9,028 | 9,731 |

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales





*Tabl 2b – Amcangyfrifon o gostau parhaus ychwanegol Cynulliad o 80 Aelod, gyda chynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad (h.y. cyfarfod llawn ychwanegol bob wythnos, pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol; a chynnydd cyfrannol yn nifer y pleidleisiau ar gyfer Biliau Aelodau), mewn blynyddoedd yn arwain at 2031–32*

| | Parhaus – 2024-25 (£000) | Parhaus – 2025-26 (£000) | Parhaus – 2026-27 (blwyddyn etholiad) (£000) | Parhaus – 2027-28, 2028-29, 2029-30, 2030-31 (£000) | Parhaus – 2031-32 (blwyddyn etholiad) (£000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff Comisiwn y Cynulliad. | 122 | 721 | 2,576 | 2,576 | 2,576 |
| Costau eraill Comisiwn y Cynulliad | 10 | 571 | 1,150 | 1,100 | 1,150 |
| Cyflogau Aelodau Cynulliad (gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi) | – | – | 1,567 | 1,788 | 1,640 |
| Cyflogau staff cymorth Aelodau | | | 2,094 | 2,393 | 2,393 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lwfansau a chostau swyddfa Aelodau[vi] | | | 980 | 885 | 922 |
| Darpariaethau ar gyfer swyddi gwag staff cymorth Aelodau Cynulliad | – | – | 121 | 138 | 138 |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau | – | – | 520 | 424 | 1,188 |
| **Cyfanswm** | **132** | **1,292** | **8,915** | **9,166** | **9,731** |

Mae costau parhaus ar gyfer 2031–32 yn cynnwys (yn hytrach nag yn ychwanegol at) gostau parhaus ar gyfer 2026–27.
Mae costau parhaus 2027–28, 2028–29, 2029–30 a 2030–31 yn cynnwys (yn hytrach nag yn ychwanegol at) gostau parhaus ar gyfer 2024–25 a 2025–26.

[vi] Yn cynnwys Gwariant ar Lety Preswyl; Costau teithio Aelodau; Costau swyddfa; a chymorth i bleidiau gwleidyddol

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales



*Tabl 3a – Amcangyfrifon o gostau trosiannol a pharhaus ychwanegol Cynulliad o 90 Aelod, heb unrhyw gynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad, gyda chostau parhaus ar gyfer blynyddoedd nodweddiadol o 2031-32 ymlaen*

| | Trosiannol (£000) | Parhaus – blwyddyn nodweddiadol heb etholiad (£000) | Parhaus – blwyddyn nodweddiadol ag etholiad (£000) |
|---|---|---|---|
| Costau staff Comisiwn y Cynulliad | 708 | 1,752 | 1,818 |
| Costau eraill Comisiwn y Cynulliad (gan gynnwys adnewyddu llety ychwanegol, rhentu llety ychwanegol, a chostau cysylltiedig eraill) | 2,503[vii] | 1,295 | 1,369 |
| Cyflogau Aelodau Cynulliad (gan gynnwys cyflog deiliaid swyddi) | – | 2,418 | 2,418 |
| Cyflogau staff cymorth Aelodau | – | 3,590 | 3,590 |
| Lwfansau a chostau swyddfa Aelodau[viii] | – | 1,326 | 1,326 |
| Darpariaethau ar gyfer swyddi | – | 138 | 138 |

[vii] Mae £50,000 ohono'n wariant cyfalaf
[viii] Yn cynnwys Gwariant ar Lety Preswyl; Costau teithio Aelodau; Costau swyddfa; a chymorth i bleidiau gwleidyddol

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales



| | | | |
|---|---|---|---|
| gwag staff cymorth Aelodau Cynulliad | | | |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau | – | 626 | 1,725 |
| **Cyfanswm** | 3,211 | 11,019 | 12,038 |

*Tabl 3b – Amcangyfrifon o gostau parhaus ychwanegol Cynulliad o 90 Aelod, heb unrhyw gynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad, mewn blynyddoedd yn arwain at 2031-32*

| | Parhaus – 2024-25 (£000) | Parhaus – 2025-26 (£000) | Parhaus – 2026-27 (blwyddyn etholiad) (£000) | Parhaus – 2027-28, 2028-29, 2029-30, 2030-31 (£000) | Parhaus – 2031-32 (blwyddyn etholiad) (£000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff Comisiwn y Cynulliad | 122 | 518 | 1,818 | 1,752 | 1,818 |
| Costau eraill Comisiwn y Cynulliad | 10 | 848 | 1,369 | 1,295 | 1,369 |
| Cyflogau Aelodau Cynulliad (gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi) | – | – | 2,418 | 2,638 | 2,418 |
| Cyflogau staff cymorth Aelodau | | | 3,291 | 3,590 | 3,590 |
| Lwfansau a chostau swyddfa Aelodau[ix] | | | 1,320 | 1,326 | 1,326 |
| Darpariaethau ar gyfer | – | – | 127 | 138 | 138 |

[ix] Yn cynnwys Gwariant ar Lety Preswyl; Costau teithio Aelodau; Costau swyddfa; a chymorth i bleidiau gwleidyddol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| swyddi gwag staff cymorth Aelodau Cynulliad | | | | | |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau | – | – | 777 | 626 | 1,725 |
| **Cyfanswm** | 132 | 1,366 | 10,802 | 11,019 | 12,038 |

Mae costau parhaus 2031-32 yn cynnwys (yn hytrach nag yn ychwanegol at) gostau parhaus ar gyfer 2026-27.
Mae costau parhaus 2027-28, 2028-29, 2029-30 a 2030-31 yn cynnwys (yn hytrach nag yn ychwanegol at) gostau parhaus ar gyfer 2024-25 a 2025-26.

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales





***Tabl 4a – Amcangyfrifon o gostau trosiannol a pharhaus ychwanegol Cynulliad o 90 Aelod, gyda chynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad (h.y. cyfarfod llawn ychwanegol bob wythnos, pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol; a chynnydd cyfrannol yn nifer y pleidleisiau ar gyfer Biliau Aelodau), gyda chostau parhaus ar gyfer blynyddoedd nodweddiadol o 2031-32 ymlaen***

| | Trosiannol (£000) | Parhaus – blwyddyn nodweddiadol heb etholiad (£000) | Parhaus – blwyddyn nodweddiadol ag etholiad (£000) |
|---|---|---|---|
| Costau staff Comisiwn y Cynulliad | 708 | 2,810 | 2,810 |
| Costau eraill Comisiwn y Cynulliad | 2,529[x] | 1,508 | 1,580 |
| Cyflogau Aelodau Cynulliad (gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi) | – | 2,656 | 2,436 |
| Cyflogau staff cymorth Aelodau | – | 3,590 | 3,590 |
| Lwfansau a chostau swyddfa Aelodau[xi] | – | 1,326 | 1,326 |
| Darpariaethau ar gyfer swyddi gwag staff cymorth Aelodau Cynulliad | – | 138 | 138 |

---

[x] Mae £50,000 ohono'n wariant cyfalaf
xi Yn cynnwys Gwariant ar Lety Preswyl; Costau teithio Aelodau; Costau swyddfa; a chymorth i bleidiau gwleidyddol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau | – | 630 | 1,730 |
| **Cyfanswm** | 3,237 | 12,312 | 13,264 |

*Tabl 4b – Amcangyfrifon o gostau parhaus ychwanegol Cynulliad o 90 Aelod, gyda chynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad (h.y. cyfarfod llawn ychwanegol bob wythnos, pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol; a chynnydd cyfrannol yn nifer y pleidleisiau ar gyfer Biliau Aelodau), mewn blynyddoedd yn arwain at 2031-32*

| | Parhaus – 2024-25 (£000) | Parhaus – 2025-26 (£000) | Parhaus – 2026-27 (blwyddyn etholiad) (£000) | Parhaus – 2027-28, 2028-29, 2029-30, 2030-31 (£000) | Parhaus – 2031-32 (blwyddyn etholiad) (£000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff Comisiwn y Cynulliad | 122 | 721 | 2,810 | 2,810 | 2,810 |
| Costau eraill Comisiwn y Cynulliad (gan gynnwys adnewyddu llety ychwanegol, rhentu llety ychwanegol, a chostau cysylltiedig eraill) | 10 | 876 | 1,580 | 1,508 | 1,580 |
| Cyflogau Aelodau Cynulliad (gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi) | – | – | 2,418 | 2,638 | 2,436 |
| Cyflogau staff cymorth Aelodau | | | 3,291 | 3,590 | 3,590 |
| Lwfansau a chostau | | | 1,326 | 1,326 | 1,326 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| swyddfa Aelodau[xii] | | | | | |
| Darpariaethau ar gyfer swyddi gwag staff cymorth Aelodau Cynulliad | – | – | 121 | 138 | 138 |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau | – | – | 781 | 630 | 1,730 |
| **Cyfanswm** | **132** | **1,597** | **12,029** | **12,312** | **13,264** |

Mae costau parhaus 2031–32 yn cynnwys (yn hytrach nag yn ychwanegol at) gostau parhaus ar gyfer 2026–27.

Mae costau parhaus 2027–28, 2028–29, 2029–30 a 2030–31 yn cynnwys (yn hytrach nag yn ychwanegol at) gostau parhaus ar gyfer 2024–25 a 2025–26.

[xii] Yn cynnwys Gwariant ar Lety Preswyl; Costau teithio Aelodau; Costau swyddfa; a chymorth i bleidiau gwleidyddol

Tabl 5: Crynodeb o dablau 1A, 2A, 3A a 4A

| | *Trosiannol* (£000) | *Parhaus* blwyddyn nodweddiadol heb etholiad (o 2027-28) (£000) | Parhaus – blwyddyn nodweddiadol ag etholiad (o 2031-32) (£000) |
|---|---|---|---|
| *80 Aelod, heb unrhyw gynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad* | 2,355 | 7,826 | 8,596 |
| *80 Aelod, gyda chynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad (h.y. cyfarfod llawn ychwanegol bob wythnos, pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol; a chynnydd cyfrannol yn nifer y pleidleisiau ar gyfer Biliau Aelodau)* | 2,377 | 9,028 | 9,731 |
| *90 Aelod, heb unrhyw gynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad* | 3,211 | 11,019 | 12,038 |
| *90 Aelod, gyda chynnydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â busnes y Cynulliad* | 3,237 | 12,312 | 13,264 |

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon